Arolygiaeth
Prawf EF

# Arolygiaeth Prawf EF

## Adroddiad blynyddol 2024:
## Troseddau Pellach Difrifol

## Gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid o ansawdd da sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf EF yw'r arolygiaeth annibynnol dros wasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Ni sy'n pennu'r safonau sy'n taflu goleuni ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil a chyhoeddiadau ar ymarfer effeithiol yn darparu dyfarniadau a chanllawiau awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Defnyddiwn ein llais i sbarduno newid mewn systemau gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at well canlyniadau i unigolion a chymunedau.

## Cynnwys


Trosolwg gan y Prif Arolygydd ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Argymhellion ........ **Error! Bookmark not defined.**

Ffeithiau cyd-destunol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Ein canfyddiadau, Ebrill 2023 i Ebrill 2024 ........ 15

Gweithgarwch sicrhau ansawdd ........ **Error! Bookmark not defined.**

Sgoriau cyfansawdd ........ **Error! Bookmark not defined.**

Trosolwg ar ranbarthau ........ **Error! Bookmark not defined.**

Safonau ansawdd unigol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Troseddau Pellach Difrifol – datblygu diwylliant dysgu ........ 33

Ymarfer asesu risg ........ **Error! Bookmark not defined.**

Adolygiad annibynnol o achos Joshua Jacques ........ 50

Gwaith y dyfodol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad A ........ 58



### Diolchiadau

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr EF Hannah Williams, Lizzie Wright a Lindsey Whitham.


Dylid nodi nad yw'r holl ganrannau yn ein tablau yn dod i gyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.


**© Hawlfraint y Goron 2024**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle nodwyd bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

**Cyhoeddwyd gan:**

Arolygiaeth Prawf EF
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX
Dilynwch ni ar X @hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-91-6

# Trosolwg gan y Prif Arolygydd



Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol ar Droseddau Pellach Difrifol (TPD)[1] ers i ni ddechrau arfer trosolwg annibynnol ar sicrwydd ansawdd adolygiadau TPD.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn rheoli llwyth achosion mawr, cymhleth ac anodd ac, oherwydd eu natur, mae'r achosion hynny'n cynnwys risgiau sydd angen eu deall a'u rheoli ond sy'n amhosibl eu dileu'n llwyr. Yn ffodus, mae nifer y TPD a gyflawnir bob blwyddyn yn parhau'n isel (rhan o 1%). Fodd bynnag, mae pob un o'r achosion hynny'n dod â chanlyniadau difrifol i ddioddefwyr a chymunedau ac yn cynnig cyfleoedd hollbwysig i ddysgu gwersi. Roedd ein harolygwyr TPD wedi sicrhau ansawdd 87 o adolygiadau TPD eleni, gan asesu bod 46 y cant ohonynt o ansawdd 'Da' a 52 y cant yn rhai lle'r oedd 'Angel gwella', ac un y cant ohonynt yn 'Rhagorol' ac un y cant yn 'Annigonol'. Mae'n destun pryder bod y sgoriau hynny'n dangos bod dirywiad am yr ail flwyddyn yn olynol yn nifer yr adolygiadau TPD a gwblhawyd gan ranbarthau prawf sydd wedi cyrraedd y safon ofynnol.

Y flwyddyn hon, am y tro cyntaf, rydym wedi gofyn am fyfyrdodau gan staff prawf am eu profiadau o'r broses adolygu TPD, i'n helpu i ddeall eu canfyddiadau o'r diwylliant sefydliadol sy'n gysylltiedig ag adolygiadau TPD. Rydym yn falch o nodi i ni gael 245 o ymatebion i'n harolwg sydd wedi darparu gwybodaeth amhrisiadwy i gyfrannu i'r adroddiad blynyddol hwn. Mae'n bwysig nodi bod nifer o themâu wedi codi'n gyson ac sydd yn peri pryder ynghylch fframwaith y polisi adolygu TPD, sut mae'n cael ei gymhwyso a'i ganlyniad a'i effaith. Ymysg y prif themâu roedd y canfyddiad bod diffyg tryloywder wrth gymhwyso'r broses adolygu TPD, a bod angen i staff gael gwell dealltwriaeth o'r fframwaith polisi, ac o ganfyddiadau'r adolygiad TPD ei hun, yn cynnwys ble maent wedi arwain at newidiadau cadarnhaol mewn ymarfer.

Cafwyd adborth hefyd fod angen gwella lefel y cymorth a ddarperir i'r rheini sy'n gysylltiedig ag adolygiadau TPD. Un neges gryf mewn nifer o'r ymatebion oedd bod y broses adolygu TPD yn ennyn ofn sylweddol yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi pwysleisio eu bod yn cefnogi ac yn dymuno cael diwylliant dysgu; felly mae angen sicrhau bod y cyfleoedd mwyaf posibl ar gael i ddysgu o ganlyniad i adolygiad TPD a'u bod yn arwain at gynnwys newidiadau mewn ymarfer ar lefel genedlaethol.

Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu am yr hyn roeddent yn ei weld yn ddiwylliant o fwrw bai yn HMPPS, yn sail i'r broses TPD. Dywedodd staff eu bod yn teimlo bod ymgais i'w dal yn atebol fel unigolion ac i briodoli atebolrwydd iddynt. Roeddent wedi dweud bod methiant i gydnabod ac ymateb i'r ffactorau systemig a gweithdrefnol ehangach a oedd yn berthnasol ac a oedd yn hanfodol i'r ffordd roedd yr achos yn cael ei reoli. Byddwn yn disgrifio'r canfyddiadau hyn yn fwy manwl yn diweddarach yn yr adroddiad hwn.

Y flwyddyn hon, cyhoeddwyd ein hadolygiad annibynnol o achos Joshua Jacques.[2] Roedd yr adolygiad wedi canfod pryderon mewn perthynas â'r llwyth gwaith, goruchwyliaeth gan reolwyr, chwilfrydedd proffesiynol ac arferion wrth reoli achosion ac asesu risg. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu nifer o'r pryderon a nodwyd yn ein hadolygiadau annibynnol o achosion Damien Bendall a Jordan McSweeney a gyhoeddwyd yn 2023. Mae'n destun pryder ein bod wedi canfod yn aml fod y pryderon hyn am ymarfer yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiadau TPD y byddwn yn eu hasesu am sicrwydd ansawdd ac yn y canfyddiadau o'r harolygiadau craidd o ranbarthau prawf.

[1] Annual report 2023: Serious Further Offences  Annual report: Serious Further Offences (2022)
[2] Independent serious further offence review of Joshua Jacques

Yn yr adroddiad blynyddol am TPD y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom saith argymhelliad i HMPPS a oedd yn ymwneud ag ansawdd adolygiadau TPD, y cynlluniau gweithredu cysylltiedig, a chynnwys y gwersi a ddysgwyd. Mae'n destun pryder mai ychydig o gynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol ar weithredu'r argymhellion hyn y flwyddyn hon. Oherwydd hynny, rydym yn eu hailadrodd ac yn gwneud pedwar argymhelliad ychwanegol i hyrwyddo'r gwelliannau mewn adolygiadau TPD y dangoswyd bod eu hangen drwy ein gweithgarwch sicrhau ansawdd ac ymgysylltu â staff.



**Martin Jones CBE**, Prif Arolygydd Prawf EF

# Cyflwyniad

Mae troseddau pellach difrifol (TPD) yn droseddau treisgar a rhywiol penodol a gyflawnwyd gan bobl a oedd, neu a fu tan yn ddiweddar iawn, o dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf ar adeg y drosedd. Bob blwyddyn, bydd oddeutu 500 o unigolion fel arfer sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf a gaiff eu cyhuddo o gyflawni troseddau pellach difrifol. Fodd bynnag, yn 2023/2024 gwelwyd cynnydd o 33 y cant yn y nifer hwn i 770.[3] O'r rheini a gyhuddir, mae rhwng pum deg a chwe deg y cant yn debygol o'u cael yn euog o'r drosedd bellach ddifrifol, a'r rheini yng ngweddill yr achosion un ai'n cael eu barnu'n euog o drosedd lai difrifol, eu rhyddfarnu neu mae'r cyhuddiadau yn eu herbyn yn cael eu gollwng.

Rhaid cofio bob amser am yr effaith ddirfawr a gaiff TPD ar y dioddefwyr a'u teuluoedd.

Bydd proses yr adolygiad TPD yn dechrau pan fydd cyhuddiad wedi'i wneud yn erbyn un sydd ar brawf a'i fod yn ymddangos mewn llys am gyflawni trosedd sy'n gymwys i'w hystyried yn drosedd bellach ddifrifol. Rhaid bod y drosedd honedig hon wedi cael ei chyflawni tra oedd y person o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf neu o fewn 28 diwrnod gwaith wedi i gyfnod ei oruchwyliaeth ddod i ben. Yn dilyn yr ymddangosiad llys cyntaf, comisiynir yr adolygiad TPD.

Pwrpas yr adolygiad TPD yw darparu craffu trylwyr ar achosion sy'n ymwneud â phobl a gafodd eu cyhuddo, tra oeddent o dan oruchwyliaeth gwasanaeth prawf, o gyflawni troseddau treisgar, rhywiol neu derfysgol penodedig. Dylai'r adolygiad roi sicrwydd i'r cyhoedd fod y gwasanaeth prawf wedi ymrwymo i adolygu ymarfer yn dilyn arestio a chyhuddo person o gyflawni trosedd bellach ddifrifol, a nodi meysydd i'w gwella os bydd angen. Dylai'r adolygiad TPD ddarparu gwybodaeth fanwl hefyd i ddioddefwyr a'u teuluoedd am y ffordd y cafodd y person ei oruchwylio, a pha gamau gweithredu sydd wedi'u pennu yn dilyn yr adolygiad. Dylai ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen i weinidogion, ac eraill yn HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig os yw'r achos wedi'i ddynodi'n un proffil uchel.[4]

Bydd adolygiad TPD yn orfodol os bydd:

- unrhyw unigolyn cymwys o dan oruchwyliaeth wedi cael ei gyhuddo o gyflawni'r troseddau hyn (yn cynnwys troseddau ategol a chychwynnol fel ymgeisio i gyflawni, cynllwynio i gyflawni, ysgogi i gyflawni a chefnogi neu gynorthwyo i gyflawni): llofruddiaeth, dynladdiad, troseddau penodedig eraill yn achosi marwolaeth, treisio neu ymosod drwy dreiddio, trosedd rywiol yn erbyn plentyn dan 13 blwydd oed, neu droseddau cymwys o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth neu wrthderfysgaeth yn ystod cyfnod o reoli gan wasanaeth prawf
- unrhyw berson cymwys ar brawf wedi cael ei gyhuddo o gyflawni, ac yn ymddangos mewn llys am gyflawni, trosedd arall sydd ar y rhestr TPD, a'i fod wedi'i asesu'n un sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol yn ystod ei gyfnod goruchwyliaeth presennol, neu os nad yw wedi bod yn destun asesiad risg yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gellir cynnal adolygiad disgresiynol hefyd os bydd:

- unrhyw berson cymwys ar brawf wedi cael ei gyhuddo o gyflawni, ac yn ymddangos mewn llys am gyflawni, trosedd, pa un a yw'r drosedd honno'n un gymwys ai peidio, a bod HMPPS wedi pennu ei bod o fudd i'r cyhoedd i adolygiad gael ei gynnal.

---

[3] Serious_Further_Offences_bulletin_2024.pdf

[4] Probation Service Serious Further Offence procedures Policy Framework - GOV.UK

Mae adolygiad TPD wedi'i fwriadu i fod yn adroddiad rheoli mewnol ac yn ddogfen y gellir ei rhannu â dioddefwyr y drosedd bellach ddifrifol neu eu teulu. Adolygiad asiantaeth sengl ydyw sy'n canolbwyntio ar waith y gwasanaeth prawf.

Mae gan bob un o'r rhanbarthau prawf ei dîm adolygu TPD ei hun sy'n cynnwys rheolwyr adolygu sy'n cynnal yr adolygiadau TPD a rheolwr arweiniol TPD. Caiff y tîm ei oruchwylio gan uwch arweinydd ac, yn y rhan fwyaf o ranbarthau prawf, hwn yw'r pennaeth perfformiad ac ansawdd. Mae'n ofynnol bod pob cyfarwyddwr prawf rhanbarthol yn sicrhau bod yr adolygiad wedi'i gydlofnodi. Dirprwyir hyn i 'uwch-reolwr priodol' sy'n annibynnol ar y rheolaeth linell dros yr achos. Fel arfer, bydd y rôl hon yn perthyn i uwch arweinydd y tîm TPD (Pennaeth Perfformiad ac Ansawdd), er ein bod bellach yn gweld y cydlofnodi'n cael ei gyflawni'n amlach gan yr arweinydd TPD sy'n aelod o'r tîm.

Mae opsiwn ar gael i gwblhau adolygiadau TPD ar sail drawsranbarthol. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld defnydd o'r opsiwn hwn yn yr adolygiadau rydym wedi'u hasesu i sicrhau ansawdd ers ymgymryd â'r rôl hon. Mae timau TPD yn cwblhau adolygiadau o fewn eu rhanbarth eu hunain.

Mae'r broses o sicrhau ansawdd yr adolygiadau TPD a gwblhawyd yn cael ei chynnal gan y tîm TPD canolog yn HMPPS, ac mae Arolygiaeth Prawf EF yn cyflawni tua 20 y cant o'r gweithgarwch sicrhau ansawdd hwn. Yn dilyn y broses sicrhau ansawdd, darperir adborth manwl i'r rhanbarth prawf ar ansawdd yr adolygiad TPD a gwblhawyd.

Arolygiaeth Prawf EF sy'n gosod y safonau ar gyfer cyflawni gweithgarwch sicrhau ansawdd. Yn unol â'r safonau hyn, bydd yr adolygiad TPD yn darparu dadansoddiad trylwyr a thryloyw o ymarfer, yn darparu dyfarniadau clir ar ddigonolrwydd yr ymarfer hwnnw ac yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd hawdd ei deall.[5]

Sefydlwyd ein rôl ar gyfer sicrhau ansawdd adolygiadau TPD yn dilyn cyhoeddi ein dogfen *Arolygiad thematig o'r broses ymchwilio ac adolygu Troseddau Difrifol Pellach (SFO)*, ym Mai 2020.[6] Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ni weithio ar sail annibynnol i sicrhau ansawdd adolygiadau TPD a gwblhawyd gan ranbarthau'r gwasanaeth prawf.

Oddi ar Ebrill 2021, mae hyn wedi'i gwneud yn ofynnol i ni:

- archwilio ac asesu tua 20 y cant o'r holl adolygiadau TPD a gyflwynwyd er mwyn sbarduno gwelliannau a chynyddu hyder y cyhoedd yn ansawdd yr adolygiadau
- cynnull paneli dysgu amlasiantaethol i ddod ag asiantaethau ynghyd sy'n ymwneud ag achosion penodol er mwyn gwella ymarfer a chryfhau'r gweithio mewn partneriaeth
- darparu trosolwg blynyddol ar y gwaith hwn.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder hefyd yn gallu gofyn i ni gwblhau adolygiad annibynnol o achos penodol neu agweddau o achos penodol. Y flwyddyn hon, rydym wedi cyhoeddi un adolygiad annibynnol, ar achos Joshua Jacques.

Yn ein harolygiadau craidd lleol o wasanaethau prawf, byddwn hefyd yn ystyried ansawdd yr adolygiadau TPD a gynhyrchir gan bob rhanbarth prawf, ac a yw'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr adolygiad TPD wedi cael effaith gadarnhaol yng nghyd-destun y diffygion mewn ymarfer a nodwyd ar draws y rhanbarth.

Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol ar TPD lle byddwn yn myfyrio ar y canfyddiadau sicrhau ansawdd rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024. Byddwn hefyd yn darparu trosolwg ar y canfyddiadau o'n harolwg ymgysylltu â staff prawf. Cawsom 245 o ymatebion gan aelodau staff prawf unigol, a'r rhain yn ymwneud â phrofiadau o TPD. Bydd yr adroddiad blynyddol

[5] Tudalen adolygiadau Troseddau Pellach Difrifol Arolygiaeth Prawf EF

[6] Arolygiad thematig o'r broses ymchwilio ac adolygu Troseddau Difrifol Pellach (SFO)

hwn hefyd yn rhannu’r canfyddiadau o’n hadolygiad annibynnol o achos Joshua Jacques, a gyhoeddwyd ar 07 Mawrth 2024.

## Argymhellion

Yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol ar TPD, roeddem wedi gosod saith argymhelliad i HMPPS. Mae'r argymhellion hyn, ynghyd â'r ymateb iddynt gan HMPPS, wedi'u dangos yn y tabl isod.

| Argymhelliad blaenorol | | Y camau a gymerwyd a'u heffaith | Categori | A oes angen mwy o welliant? |
|---|---|---|---|---|
| | | *Crynodeb o'r camau a gymerwyd a'u heffaith* | *Cynnydd digonol/ Rhywfaint o gynnydd/ Dim cynnydd* | *Oes/nac oes – Os oes, ystyried ailadrodd yr argymhelliad* |
| **1** | Cymryd camau buan i adolygu fformat y ddogfen adolygu TPD er mwyn cael y cyfle gorau i lunio adolygiadau TPD llawn gwybodaeth o ansawdd da sy'n cwrdd ag anghenion dioddefwyr a'u teuluoedd. | HMPPS wedi rhoi gwybod bod 'dull symlach' wedi'i gyflwyno, yn gofyn i reolwyr adolygu ganolbwyntio ar yr ymarfer diweddaraf a chyfleoedd i ddysgu.<br>Bydd HMPPS yn adolygu effaith y newidiadau hyn ar ansawdd ac amseroldeb adolygiadau TPD 'yn ddiweddarach eleni' (2024), a bydd yn ystyried bryd hynny a oes angen gwneud newidiadau. | Rhywfaint o gynnydd. | Oes, bydd angen dangos yr effaith a'r dull o weithredu. |
| **2** | Sicrhau bod y gwersi i'w dysgu a nodwyd yn cael eu troi'n gamau gweithredu ystyrlon ac effeithiol. | Ni chafwyd diweddariad penodol i amlinellu'r camau a gymerwyd. | Dim cynnydd wedi'i nodi. | Oes, yr argymhelliad wedi'i ailadrodd. |
| **3** | Sicrhau, lle bo'n gymwys, fod yr holl wersi i'w dysgu mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth gan y gwasanaeth prawf yn cael eu dynodi a'u rhannu â'r asiantaethau perthnasol. | Ni chafwyd diweddariad penodol i amlinellu'r camau a gymerwyd. | Dim cynnydd wedi'i nodi. | Oes, yr argymhelliad wedi'i ailadrodd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Datblygu proses i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau TPD yn cael eu hadborthi i'r sefydliad er mwyn cyfrannu i ddatblygiadau mewn rhanbarthau prawf ac yn fwy eang ar draws HMPPS. | HMPPS wedi rhoi gwybod ei fod yn datblygu traciwr cynlluniau gweithredu i 'dracio a monitro' yr holl gynlluniau gweithredu TPD. Roedd hyn i fod i gael ei gyflwyno 'yn ddiweddarach yr haf hwn' (2024). Nid yw Arolygiaeth Prawf EF wedi cael unrhyw ddiweddariadau pellach am hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.<br><br>HMPPS wedi rhoi gwybod bod y Prif Swyddog Prawf yn cynnal cyfarfodydd chwarterol i adolygu cynnydd ac effaith y camau a gymerwyd yn dilyn TPD sydd wedi'u dynodi'n rhai proffil uchel a'i fod yn cysylltu'r rhain â gofynion am weithgarwch gwella ehangach . | Rhywfaint o gynnydd. | Oes, bydd angen dangos yr effaith a'r dull o weithredu. |
| **5** | Sicrhau bod proses drwyadl ac effeithiol ar gyfer cydlofnodi'r holl adolygiadau TPD cyn eu cyflwyno i sicrhau ansawdd. | Cynhelir sesiynau meincnodi, ar y cyd â HMPPS, sy'n canolbwyntio ar rôl yr arweinydd TPD wrth gymryd y camau sicrhau ansawdd cyntaf, a bydd hyn yn cyfrannu at y broses cydlofnodi os yw'r arweinwyr TPD yn cyflawni'r rôl hon.<br><br>Mae'r fframwaith polisi TPD yn pennu'r disgwyliadau o ran cydlofnodi ac mae'r tîm TPD canolog wedi darparu rhestr wirio cydlofnodi i helpu rheolwyr sy'n cyflawni'r rôl hon. | Rhywfaint o gynnydd. | Oes, yr argymhelliad wedi'i ailadrodd. |
| **6** | Rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau, ar ôl cael adborth sicrhau ansawdd, fod yr holl newidiadau gofynnol yn nogfen yr adolygiad | HMPPS wedi rhoi gwybod bod atebolrwydd rhanbarthol yn cael ei gyflawni drwy'r 'llinell weithredol AED', a bod y canllawiau presennol wedi'u cadw lle mae'n ofynnol | Rhywfaint o gynnydd. | Oes, bydd angen dangos yr effaith a'r dull o weithredu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | TPD yn cael eu gwneud yn amserol ac at safon ddigonol. | gwneud newidiadau yn yr adolygiad yn dilyn y broses sicrhau ansawdd. | | |
| **7** | Os yw'n bosibl, dylai adolygiadau TPD, yn enwedig y rheini ar y troseddau mwyaf difrifol, gael eu cynnal gan ranbarth prawf gwahanol i hwnnw a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r achos ar adeg y drosedd bellach ddifrifol. A dylid ystyried codi gradd adolygwyr TPD, yn enwedig ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu gymhleth. | HMPPS wedi rhoi gwybod ei fod wedi ystyried yr argymhelliad gan Arolygiaeth Prawf EF ac nad yw'n cynnig codi gradd adolygwyr TPD. Mae hyn wedi'i seilio ar y profiad nad yw penodi adolygydd ar radd uwch yn arwain o reidrwydd at wella ansawdd yr adolygiad. Hefyd, byddai gwneud hynny'n galw am ddefnyddio adnoddau ychwanegol y credwyd y byddai'n well eu targedu ar weithrediadau rheng flaen. | Rhywfaint o gynnydd. | Oes, bydd angen dangos yr effaith a'r dull o weithredu. |

Mewn ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol, mae HMPPS wedi ein hysbysu eu bod yn cydnabod bod timau adolygu TPD rhanbarthol yn wynebu heriau wrth geisio cyflawni'r gweithdrefnau adolygu TPD ar eu ffurf bresennol. Maent wedi dweud wrthym nad yw timau rhanbarthol yn cwblhau'r holl adolygiadau TPD o fewn y cyfnodau disgwyliedig, hyd yn oed ar ôl ymestyn y terfynau amser ar eu cyfer, nac yn eu cwblhau at y safon ofynnol.

Y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd adolygiad cynllunio gweithlu gan HMPPS a ddangosodd fod angen adnoddau ychwanegol i gynorthwyo timau adolygu TPD i gwblhau'r adolygiadau sy'n ofynnol. Mae HMPPS wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi recriwtio rheolwyr adolygu ychwanegol yn dilyn yr adolygiad hwn, ond nad yw hyn wedi'i weithredu'n llawn am fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i swyddi gweithredol rheng flaen. Ni rannwyd gwybodaeth am nifer y rheolwyr adolygu ychwanegol sydd wedi'u recriwtio felly nid yw'n glir pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar adnoddau timau adolygu TPD yn gyffredinol.

Cyflwynwyd diwygiadau i'r templed TPD yn Ionawr 2024, yn cyfyngu cwmpas y cyfnod dadansoddi i'r chwe mis cyn cyflawni'r drosedd bellach ddifrifol. Mae HMPPS wedi pwysleisio wrthym y bydd cyflwyno'r fformat hwn yn eu helpu i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i dimau TPD. Maent yn rhag-weld y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y dogfennau ac yn lleihau'r ôl-groniad o adolygiadau sydd wedi codi mewn rhanbarthau prawf. Mae HMPPS wedi adrodd eu bod wedi'u calonogi gan rai o'r adolygiadau a gyflwynir yn y fformat hwn. Er hynny, nid yw'r data sydd gennym yn dangos cynnydd mewn ansawdd hyd yn hyn, er ein bod yn cydnabod mai nifer bach o adolygiadau yn y fformat hwn a welsom wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mewn ymateb i'r argymhelliad bod angen cael sicrwydd pendant bod adborth ar sicrhau ansawdd yn cael ei gymhwyso at adolygiadau TPD, mae HMPPS wedi rhoi gwybod na wnaed unrhyw newidiadau yn y fframwaith polisi presennol. Er ein bod yn cydnabod bod atebolrwydd rhanbarthol wedi'i gynnwys yn y fframwaith hwn, mae ein gwaith sicrhau ansawdd yn dangos nad yw hyn wedi darparu'r oruchwyliaeth gadarn sydd ei hangen ac nad yw'r diwygiadau a amlinellwyd mewn adborth sicrhau ansawdd wedi cael eu cymhwyso bob amser.

Mae HMPPS wedi darparu sicrwydd eu bod yn datblygu dull tracio cynlluniau gweithredu. Bydd hwn yn monitro'r holl gynlluniau gweithredu ar TPD gyda'r nod o helpu i'w cyflawni, a bydd yn darparu trosolwg ar y set ddysgu ranbarthol a chenedlaethol yn rhan o'r adolygiad TPD. Mae hyn i gael ei gyflwyno mewn rhanbarthau prawf, a bydd o ddiddordeb i ni weld sut y caiff ei gyflwyno a beth fydd ei effaith.

Er mwyn cynorthwyo rheolwyr adolygu, mae tîm TPD canolog HMPPS wedi cyflwyno sesiynau datblygu gyda'r rheini sydd wedi cael dwy sgôr gyfansawdd olynol o 'Angen gwella'. Mae hwn yn gyfle datblygu cadarnhaol i reolwyr adolygu, ac edrychwn ymlaen at weld pa effaith a gaiff y sesiynau hyn ar ansawdd yr adolygiadau sy'n cael eu hysgrifennu gan reolwyr adolygu.

Mae HMPPS wedi cadarnhau bod y model cyflawni presennol ar gyfer TPD yn cael ei gadw. Fodd bynnag, byddant yn adolygu effaith y templed diwygiedig ac maent yn bwriadu ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig a gyflwynir yn dilyn hyn yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â hyn.

Fel y mae'r wybodaeth uchod yn dangos, nid oedd yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol ar TPD wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn gan HMPPS. Felly, rydym yn ailadrodd argymhellion y flwyddyn ddiwethaf ac yn gwneud yr argymhellion ychwanegol a ganlyn:

1. cyflwyno darpariaeth hyfforddi a datblygu ar gyfer y rheini sy'n gweithio mewn timau TPD mewn ffordd sy'n galluogi rheolwyr adolygu i gyflawni'r rôl mewn ffordd ystyrlon ac yn hybu diwylliant dysgu a rennir ymysg timau adolygu TPD ac ar draws rhanbarthau prawf

2. mewn cysylltiad â'r gweithdrefnau TPD sy'n cael eu hadolygu, canolbwyntio'n neilltuol ar dryloywder y broses a sut mae'r canfyddiadau o adolygiadau'n cael eu rhannu â'r aelodau staff a oedd yn gysylltiedig â rheoli'r achos
3. cymryd camau i sicrhau bod yr adnoddau ar gyfer timau adolygu TPD yn gallu cwrdd â'r gofynion a nodwyd yn y fframwaith polisi TPD, a chanolbwyntio'n neilltuol ar ddelio â'r ôl-groniad o adolygiadau TPD ac ar eu cwblhau'n amserol o hyn ymlaen
4. adolygu effeithiolrwydd ac effaith y fframwaith polisi TPD a'r dull o ddadansoddi ymarfer pan fydd troseddau pellach difrifol yn digwydd er mwyn sicrhau bod gwersi ystyrlon i'w dysgu yn cael eu nodi ar y lefel gywir.

## Ffeithiau cyd-destunol

Rhwng 2023 a 2024 cafodd HMPPS 770 o hysbysiadau am TPD, sef cynnydd o 33 y cant oddi ar y flwyddyn flaenorol a'r lefel uchaf yng nghyfres adroddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.[7]

**Tabl un: ystadegau TPD**

| | |
|---|---|
| **238,646** | Nifer yr unigolion o dan oruchwyliaeth gwasanaeth prawf ar 30 Mehefin 2024.[7] |
| **579** | Nifer yr hysbysiadau am TPD a gafwyd yn 2022/2023, sef cynnydd oddi ar 529 yn 2021/2022. |
| **770** | Nifer yr hysbysiadau am TPD a gafwyd yn 2023/2024. Mae hyn cyfateb i gynnydd o 33 y cant yn nifer yr hysbysiadau am TPD o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. |
| **478** | Erbyn 30 Medi 2024, roedd 478 o adolygiadau wedi'u cwblhau ar y 770 o hysbysiadau a gafwyd. |
| **287** | Nifer yr euogfarnau am TPD o'r 579 o hysbysiadau a gafwyd yn 2022/2023. |
| **50%-60%** | Cyfran yr hysbysiadau am TPD sy'n arwain at euogfarn am drosedd bellach ddifrifol yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yng ngweddill yr achosion, bydd y cyhuddiad wedi'i ollwng, neu'r person wedi'i ryddfarnu, neu ei gael yn euog o drosedd lai difrifol. |
| • **128 o dan oruchwyliaeth yn y gymuned**<br>• **148 o ddedfrydau o garchar am gyfnod penodol**<br>• **3 ar drwydded oes**<br>• **8 wedi'u carcharu er amddiffyn y cyhoedd** | Nifer yr euogfarnau am TPD yn 2022/2023 wedi'u rhannu yn ôl y math o oruchwyliaeth am y drosedd fynegai. |
| **60** | Nifer yr euogfarnau am lofruddiaeth o'r 287 o euogfarnau am TPD yn 2022/2023, cynnydd o 59 oddi ar y flwyddyn flaenorol. |
| **98** | Nifer yr euogfarnau am dreisio a throseddau rhywiol difrifol eraill o'r 287 o euogfarnau am TPD yn 2022/2023, cynnydd o 75 oddi ar y flwyddyn flaenorol. |

[7] Proven reoffending statistics: October to December 2022 - GOV.UK

**Tabl dau: TPD y cafwyd euogfarn amdanynt yn ôl y cyfnod hysbysu ar 30 Medi 2024 ar gyfer Cymru a Lloegr**

| Trosedd bellach ddifrifol y cafwyd euogfarn amdani | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|
| Llofruddiaeth | 64 | 60 |
| Ymgais i lofruddio neu gynllwynio i gyflawni llofruddiaeth | 16 | 11 |
| Dynladdiad | 20 | 21 |
| Treisio/Ymosod drwy dreiddio blentyn o dan 13 oed/Ymgais i dreisio/Treisio plentyn o dan 13 oed | 77 | 98 |
| Llosgi bwriadol gan fwriadu peryglu bywyd | 20 | 21 |
| Llathruddo/herwgydio/camgarcharu | 22 | 18 |
| Marwolaeth yn ymwneud â gyrru cerbyd/cymryd cerbyd | 10 | 14 |
| Troseddu rhywiol/treisgar difrifol arall | 67 | 44 |
| **Cyfanswm** | **296** | **287** |

**Tabl tri: Nifer yr euogfarnau TPD am lofruddiaeth, yn ôl y math o ddedfryd roedd y person ar brawf yn ei chwblhau ar y pryd ar 30 Medi 2024**

| Math o ddedfryd am y drosedd fynegai | 2021/2022 | 2022/2023 |
|---|---|---|
| Goruchwyliaeth yn y gymuned | 27 | 30 |
| Dedfryd o garchar | 35 | 28 |
| Dedfryd o garchar am oes | 2 | 1 |
| Carcharu er amddiffyn y cyhoedd | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **64** | **60** |


## Ein canfyddiadau, Ebrill 2023 i Ebrill 2024

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024, roeddem wedi asesu sicrwydd ansawdd hapsampl o 20 y cant o'r adolygiadau TPD a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr, yn cyfateb i 87 o adolygiadau.

**Tabl pedwar: Adolygiadau TPD a aseswyd am sicrwydd ansawdd gan Arolygiaeth Prawf EF, yn ôl y math o drosedd**

| Nifer | Trosedd bellach ddifrifol |
|---|---|
| 21 | Llofruddiaeth |
| 2 | Ymgais i lofruddio |
| 2 | Dynladdiad |
| 2 | Cynllwynio i lofruddio |
| 28 | Treisio |
| 3 | Ymgais i dreisio |
| 2 | Ymosod drwy dreiddio |
| 4 | Ymosod yn rhywiol ar blentyn dan 13 oed |
| 4 | Llosgi bwriadol gan fwriadu peryglu bywyd |
| 1 | Trefnu/hwyluso cyflawni trosedd rywiol yn erbyn plentyn |
| 1 | Ymgais i achosi/ysgogi plentyn o dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol |
| 5 | Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus |
| 3 | Camgarcharu |
| 3 | Llathruddo |
| 1 | Gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed |
| 4 | Achosi neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol |
| 1 | Bwrgleriaeth gan fwriadu achosi niwed corfforol difrifol |
| Cyfanswm 87 | |

**Tabl pump: Sicrwydd ansawdd adolygiadau TPD yn ôl categori'r risg o niwed difrifol ar adeg cyflawni'r drosedd bellach ddifrifol**




| | |
|---|---|
| Low | Isel |
| Medium | Canolig |
| High | Uchel |
| Very high | Uchel iawn |

O'r 87 o adolygiadau TPD a aseswyd gennym am sicrwydd ansawdd y flwyddyn hon, roedd 45 y cant o'r troseddau wedi'u cyflawni gan bobl ar brawf yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol cyn cyflawni'r drosedd bellach ddifrifol, a 44 y cant wedi'u hasesu'n rhai a oedd yn peri risg ganolig o niwed difrifol. Mae hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, pan oedd 44 y cant o'r adolygiadau TPD a aseswyd am sicrwydd ansawdd yn ymwneud â rhai yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol a 42 y cant yn ymwneud â rhai yr aseswyd eu bod yn peri risg ganolig.

# Gweithgarwch sicrhau ansawdd

## Ein safonau

Mae'r broses ar gyfer sicrhau ansawdd adolygiadau TPD wedi'i seilio ar safonau Arolygiaeth Prawf EF. Y flwyddyn hon, mae'r safonau hyn wedi'u diweddaru, ac roeddem wedi cynnal digwyddiad ar-lein i'r rheini sy'n ymwneud ag adolygiadau TPD er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r safonau a'r diwygiadau a wnaed.

Mae'r newidiadau a wnaed yn y safonau diwygiedig wedi'u dangos yn Atodiad A. Cyflwynwyd y diwygiadau ym mis Tachwedd 2023, felly roedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gasglu yn dilyn rhannu'r gweithgarwch sicrhau ansawdd rhwng dwy set ddata. Mewn mannau yn yr adroddiad hwn, a lle'r oedd yn briodol, mae'r setiau data wedi'u cyfuno wrth lunio'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r safonau wedi'u hategu gan ein rheolau a chanllawiau, a'r nodweddion ar gyfer sgorio. Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael ar ein gwefan i'w defnyddio gan reolwyr adolygu ac arweinwyr TPD ar gyfer ysgrifennu a chydlofnodi adolygiadau TPD.[5]

Mae ein safonau yn sail i'n gweithgarwch sicrhau ansawdd ni a hynny a gyflawnir gan dîm TPD canolog HMPPS.

Un rhan annatod o'n gweithgarwch sicrhau ansawdd yw proses barhaus o drafod a myfyrio ar ein safonau. Mae hyn yn helpu ein harolygwyr i'w cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol.

Bob chwarter blwyddyn, ar y cyd â HMPPS, rydym yn cynnal cyfarfodydd rhyng-gysylltu a sesiynau meincnodi. Mae'r rhain yn ein helpu i gydfonitro'r ffordd y mae'r safonau'n cael eu cymhwyso, ac i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson.

Rydym hefyd yn cynnal sesiynau meincnodi chwarterol gyda'n harolygwyr TPD i ddarparu sicrwydd mewnol ar gymhwyso'r safonau. Rydym yn cydnabod yr effaith y gellir ei chael ar reolwyr adolygu a thimau TPD o gael sgôr gyfansawdd 'Annigonol'. Pan geir arwydd cynnar yn ystod y broses sicrhau ansawdd fod y sgôr hon yn debygol, bydd ein harolygwyr TPD yn cynnal ymarfer meincnodi ar y cyd i sicrhau ansawdd yr adolygiad TPD ar sail y safonau.

Bydd ansawdd pob adolygiad TPD yn cael ei sicrhau ar sail pedair safon: dadansoddiad o ymarfer, dyfarniadau digonol, gwersi a ddysgwyd a dioddefwyr a'u teuluoedd. Mae'r safonau hyn yn dangos ein disgwyliadau y bydd adolygiad TPD yn cynnwys dadansoddiad trylwyr a thryloyw o ymarfer, yn defnyddio sylfaen dystiolaeth i ddarparu dyfarniadau clir a chytbwys ar ddigonolrwydd yr ymarfer, yn nodi cyfleoedd i ddysgu gwersi er mwyn gwella ymarfer ar bob lefel yn y sefydliad, ac yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd sensitif a hawdd ei deall fel bod modd rhannu'r adolygiad gyda'r dioddefwr neu ei deulu.

Rhoddir sgôr am bob safon, a bydd y sgoriau hyn yn cael eu cyfuno wedyn i roi sgôr gyfansawdd fel a ganlyn:

- 'Rhagorol'
- 'Da'
- 'Angen gwella' neu
- 'Annigonol'.

Rydym yn darparu adborth sicrhau ansawdd i'r rhanbarth prawf. Bydd hyn yn egluro pam y rhoddwyd pob un o'r sgoriau, ble'r oedd yr adolygiad wedi cyrraedd y safon ofynnol ac, os oes angen gwelliannau, sut y dylid gwneud y rhain.


## Sgoriau cyfansawdd

O'r 87 o adolygiadau TPD a aseswyd am sicrwydd ansawdd y flwyddyn hon, rhoddwyd sgôr gyfansawdd 'Angen gwella' i 52 y cant ohonynt, a sgôr 'Da' i 46 y cant ohonynt.

O gymharu â'r canfyddiadau mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n destun siom i ni mai parhau i ostwng y mae nifer yr adolygiadau TPD sydd wedi cyrraedd y safon ofynnol ac wedi cael sgôr gyfansawdd 'Da'. Gan hynny, cafwyd cynnydd cymharol yn nifer yr adolygiadau TPD a gafodd sgôr 'Angen gwella'.

Mae'r tabl isod yn dangos sgoriau cyfansawdd yr holl adolygiadau TPD a aseswyd gennym am sicrwydd ansawdd er 2021.

**Tabl chwech: Sgoriau cyfansawdd er 2021**




| | |
|---|---|
| Outstanding | Rhagorol |
| Good | Da |
| Requires improvement | Angen gwella |
| Inadequate | Annigonol |

## Trosolwg ar ranbarthau

Mae Arolygiaeth Prawf EF yn sicrhau ansawdd tua 20 y cant o’r adolygiadau TPD a gyflwynwyd yn yr holl ranbarthau prawf. Bydd yr adolygiadau TPD yn cael eu dyrannu i ni ar hap, er bod tîm TPD canolog HMPPS yn ceisio darparu dosraniad teg ohonynt, lle bo modd, er mwyn sicrhau bod pob rhanbarth prawf wedi’i gynrychioli. Fodd bynnag, gall hyn gael ei effeithio gan nifer yr adolygiadau TPD a gyflwynir gan bob rhanbarth prawf, gan amser eu cyflwyno a chan faint yr ôl-groniad yn y rhanbarth.

**Tabl saith: Sgoriau cyfansawdd a roddwyd am adolygiadau TPD gan bob rhanbarth prawf rhwng 2022-2023 a 2023-2024**

| Rhanbarth prawf | Sgoriau cyfansawdd 2023-2024 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sgoriau cyfansawdd 2022- 2023 | | | |
| | Rhagorol | Da | Angen gwella | Annigonol |
| Swydd Efrog a Humber | | 3 | 8 | 1 |
| | | 3 | 7 | |
| Manceinion Fwyaf | | 3 | 4 | |
| | | 7 | 1 | |
| Llundain | | 3 | 6 | |
| | | 5 | 5 | |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | | 6 | 4 | |
| | | 6 | | |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | | 1 | 1 | |
| | | 3 | 2 | |
| Cymru | | 4 | 2 | |
| | | 3 | 2 | |
| Gogledd-orllewin Lloegr | | 3 | 3 | |
| | | 4 | 3 | |
| Caint, Surrey a Sussex | | 1 | 5 | |
| | | 4 | 2 | |
| Dwyrain Lloegr | 1 | 6 | 1 | |
| | 2 | | 5 | |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | | 3 | 4 | |
| | | | 4 | 2 |
| De-orllewin Lloegr | | 4 | 5 | |
| | | 2 | 5 | |
| Canol De Lloegr | | 3 | 2 | |
| | 1 | 5 | 3 | |

Mae tabl saith yn dangos dosbarthiad rhanbarthol y sgoriau cyfansawdd yn y cyfnod adrodd diweddaraf, o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Mae’n dangos bod safon adolygiadau TPD yn amrywio o hyd rhwng rhanbarthau prawf.

Rydym wedi nodi o’r blaen y ffactorau roeddem yn credu eu bod yn effeithio ar ansawdd yr adolygiadau TPD a gwblhawyd. Mae’r ffactorau hyn yn parhau i beri pryder heddiw.


Un o’r anghenion sylfaenol ar gyfer cwblhau adolygiadau TPD yw sicrhau bod adnoddau digonol gan dimau adolygu TPD. Drwy ein hymgysylltu â thimau TPD rhanbarthol, rydym wedi clywed gan nifer o dimau sy’n teimlo bod eu hadnoddau a galwadau eu llwyth gwaith yn destun pryder.

Yn ogystal â’u heffaith ar ansawdd adolygiadau, mae pryderon am adnoddau wedi cyfrannu at ôl-groniad o adolygiadau TPD sy’n aros am eu cwblhau ledled rhanbarthau prawf. Ar hyn o bryd, y disgwyliad yw y bydd adolygiadau’n cael eu cwblhau o fewn pum mis ar ôl cyflwyno hysbysiad am drosedd bellach ddifrifol i dîm TPD canolog HMPPS. Mae hyn yn ddiwygiad i’r fframwaith polisi o dan fodel cyflawni eithriadol (EDM) a gyflwynwyd yn Ebrill 2020 mewn ymateb i’r pandemig COVID-19. Mae’r EDM yn gosod terfyn amser tri mis ac yn galluogi rhanbarthau prawf i gwblhau trosolwg llai ar ffurf ‘golwg cynnar manwl’ yn lle adolygiad TPD, mewn rhai amgylchiadau. Mae’n ofynnol o hyd fod adolygiad TPD yn cael ei gwblhau mewn perthynas â’r canlynol: lle bernir bod yr achos yn un proffil uchel; lle mae’r drosedd bellach ddifrifol wedi arwain at golli bywyd; lle mae’r drosedd bellach ddifrifol yn drosedd rywiol ddifrifol neu’n achos o dreisio yn erbyn plentyn o dan 13 oed; neu lle nodwyd pryderon sylweddol am ymarfer sy’n galw am sylw pellach.

Mae’n destun pryder, er bod yr EDM wedi’i roi ar waith ac wedi parhau mewn grym am gyfnod sylweddol, fod oedi o hyd wrth gwblhau adolygiadau TPD. Mae nifer o ranbarthau lle mae ôl-groniad o adolygiadau TPD sy’n aros am eu cwblhau.

**Tabl wyth: nifer yr adolygiadau a aseswyd am sicrwydd ansawdd a gyflwynwyd o fewn y cyfnodau disgwyliedig**

| | |
|---|---|
| Extension | Estyniad |
| On time | Ar amser |




Roedd rhanbarthau prawf wedi gofyn am estyniad i’r terfyn amser a gytunwyd ar gyfer cyflwyno mewn 76 y cant o’r 87 o asesiadau TPD a aseswyd am sicrwydd ansawdd y flwyddyn hon.

Pan geir oedi cyn cyflwyno adolygiadau, mae’n cymryd mwy o amser i’r gwasanaeth prawf ganfod gwersi i’w dysgu a gweithredu ar eu sail, a rhannu’r canfyddiadau â’r dioddefwr neu ei deulu.

Mae’r arweinydd TPD yn y rhanbarth prawf yn darparu goruchwyliaeth reoli dros y rheolwyr adolygu a lefel gyntaf yr oruchwyliaeth dros yr adolygiad TPD cyn ei gydlofnodi’n ffurfiol. Mae’r broses gydlofnodi fewnol hon yn un bwysig. Mae’n dangos bod y rhanbarth prawf wedi cymeradwyo ansawdd a chynnwys yr adolygiad ac wedi penderfynu ei fod yn barod ar gyfer sicrhau ansawdd. Rydym wedi clywed drwy ein hymgysylltu rhanbarthol fod arweinwyr TPD yn ei chael yn anodd darparu’r broses fanwl sydd ei hangen drwy’r amser, yn enwedig o ystyried nifer yr adolygiadau y mae pob rhanbarth yn eu llunio fel arfer. O ganlyniad i hyn, mae rhai adolygiadau wedi’u cymeradwyo ar lefel ranbarthol fel rhai digonol a pharod ar gyfer sicrhau ansawdd er nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol.

Mae ein safonau ansawdd diwygiedig yn pwysleisio pwysigrwydd proses cydlofnodi HMPPS o ran helpu i sicrhau bod adolygiadau TPD yn cyrraedd y safon ofynnol o ran ansawdd mor gynnar â phosibl yn y broses adolygu. Y rheswm am hyn yw y bydd proses cydlofnodi drwyadl yn osgoi’r angen am unrhyw waith datblygu ychwanegol ar yr adolygiad yn dilyn y broses sicrhau ansawdd.

Mae ansawdd yr oruchwyliaeth reoli hefyd yn thema gyffredin sydd wedi'i nodi yn ein canfyddiadau arolygu craidd,[8] a ddangosodd, o blith yr arolygiadau a gwblhawyd hyd yn hyn, mai dim ond 19 y cant o achosion a oedd yn dangos bod goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr.

Mae tîm canolog HMPPS yn chwarae rhan wrth gynorthwyo timau TPD rhanbarthol a bydd yn rhyngweithio'n rheolaidd drwy gyfarfodydd sefydlu gyda rheolwyr adolygu newydd, a thrwy fforymau, a chyfarfodydd unigol gyda rheolwyr adolygu ac arweinwyr TPD. Er hynny, cawsom ein hysbysu droeon fod yr hyfforddiant canolog ar wahân sydd ar gael i reolwyr adolygu yn ddarpariaeth annigonol i'w paratoi ar gyfer cwblhau adolygiadau TPD o ansawdd da. Mae rhanbarthau wedi adrodd bod yr hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar rai o elfennau gofynnol y rôl, fel technegau cyf-weld a hyrwyddo dealltwriaeth o weithdrefnau adolygu TPD. Er bod y rhain yn bwysig, nid yw'r hyfforddiant yn cynnwys camau i helpu rheolwyr adolygu TPD i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ffordd i ysgrifennu adolygiad sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig. Mae anghysondeb hefyd o ran pa bryd y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu i reolwyr adolygu; roedd rhai wedi bod yn eu swydd am gyfnod hir cyn cael yr hyfforddiant. Mae angen gwneud mwy i ddatblygu a chynorthwyo rheolwyr adolygu, yn ogystal â sicrhau mwy o dryloywder a rhannu data o ansawdd da ac arferion da ar draws rhanbarthau er mwyn cynnal dull datblygu ar y cyd. Dyma pam rydym wedi argymell y dylai HMPPS ddatblygu'r hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i reolwyr adolygu.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi clywed eto gan ranbarthau prawf nad yw fformat yr adolygiad TPD yn addas ar gyfer ysgrifennu dogfennau o ansawdd da. Er bod ein sgoriau sicrwydd ansawdd ar gyfer y flwyddyn hon yn dangos bod 47 y cant ohonynt wedi cyrraedd y safon ofynnol, rydym yn rhannu'r pryderon bod fformat presennol yr adolygiad TPD, a'r gofyniad i gwrdd â disgwyliadau dwy gynulleidfa wahanol, yn cael effaith ar ansawdd.

Roeddem wedi nodi yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol fod tîm canolog HMPPS yn cytuno â'r pryderon am ansawdd yr adolygiadau a gwblheir a bod y tîm yn bwriadu adolygu'r fframwaith ar gyfer cyflawni adolygiadau TPD. Er hynny, mae'r un fframwaith polisi TPD yn aros yn ei le y flwyddyn hon, er bod y templed wedi'i ddiwygio i fyrhau'r cyfnod dan oruchwyliaeth sy'n cael ei ddadansoddi yn yr adolygiad. Cyflwynwyd y newid hwn tua diwedd y cyfnod adrodd hwn, yn Ionawr 2024, ac felly, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, dim ond saith adolygiad a gwblhawyd yn y fformat newydd sydd wedi'u hasesu gennym i sicrhau ansawdd.

Mae HMPPS wedi adrodd y bydd y fformat diwygiedig yn helpu rhanbarthau i reoli cyflymder a galwadau'r llwyth gwaith, a'u bod wedi dechrau gweld cynnydd yn nifer yr adolygiadau a gwblhawyd a oedd yn rhan o'r ôl-groniadau mewn rhanbarthau. Mae HMPPS hefyd wedi adrodd eu bod wedi cael eu 'calonogi' gan ansawdd rhai o'r adolygiadau a gyflwynwyd yn y fformat diwygiedig hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r data sydd gennym yn dangos bod y diwygiad hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd. O'r saith adolygiad TPD a aseswyd gennym am sicrwydd ansawdd, rhoddwyd sgôr 'Da' i dri ohonynt a sgôr 'Angen gwella' i bedwar. Roedd tri o'r saith wedi'u cyflwyno o fewn y cyfnod disgwyliedig heb ofyn am estyniad. Er hynny, rhaid pwysleisio mai bach yw'r nifer hwn. Bydd y flwyddyn adrodd nesaf yn darparu data mwy cynhwysfawr am hyn.

Rydym wedi adrodd o'r blaen fod adolygiadau TPD yn cael eu cwblhau gan staff ar raddau rheolwyr canol yn eu rhanbarthau prawf eu hunain. Roeddem wedi codi pryderon am y model gweithredu hwn, gan gwestiynu a oedd yn wrthrychol a gofyn a yw'r rheolwyr adolygu, ar eu gradd nhw, yn gallu craffu ar ymarfer prawf yn drwyadl ac effeithiol ar bob lefel o fewn y sefydliad. Mae HMPPS wedi dweud wrthym nad ydynt yn bwriadu newid y model gweithredu hwn. Ar nodyn cadarnhaol, o gymharu â blynyddoedd blaenorol, rydym yn gweld dull mwy cyson o gyf-weld uwch arweinwyr ar gyfer adolygiadau. Er hynny, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu bob amser yn y dadansoddi a'r dyfarniadau a ddarperir yn yr adolygiad TPD. Oherwydd hyn, nid yw'r broses o ddysgu gwersi o'r adolygiad bob amser yn cael ei gosod ar y

[8] Data o arolygiadau craidd Arolygiaeth Prawf EF 2024.

lefel gywir o fewn y sefydliad. Rydym hefyd yn clywed o hyd gan rai rheolwyr adolygu sy'n dweud, er eu bod wedi cyf-weld uwch arweinwyr, fod eu gallu i herio a beirniadu ymarfer ar y lefel hon yn dal i gael ei danseilio oherwydd y gwahaniaeth rhwng eu graddau a'u rolau o fewn y sefydliad.

Er mwyn helpu rhanbarthau i gyflawni adolygiadau TPD sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig, rydym wedi parhau i gyflwyno rhaglen o sesiynau meincnodi rhanbarthol gyda'r timau adolygu TPD. Pwrpas y sesiynau hyn, sydd wedi'u hanelu at reolwyr adolygu ac arweinwyr TPD, yw gwella dealltwriaeth o'r ffordd i gymhwyso'r safonau wrth ysgrifennu adolygiadau TPD. Byddwn yn parhau â'r sesiynau hyn ac yn eu hymestyn dros y flwyddyn adrodd nesaf.

Ar ôl pob un o'r sesiynau hyn, byddwn yn casglu adborth dienw oddi wrth y cyfranogwyr. Mae'r rhan fwyaf o lawer o'r adborth hwn wedi bod yn gadarnhaol, yn pwysleisio bod angen am drafodaethau wyneb yn wyneb o'r fath sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r safonau TPD a'r ffordd i'w cymhwyso at ymarfer y rheolwr adolygu.

Mae rhai sylwadau isod o'r adborth am y sesiynau meincnodi:

> *'Roedd yn caniatáu amser i eistedd a myfyrio gan ei bod yn anodd gwneud hynny'n aml am ein bod yn gweithio ar y fath gyflymder. Rydw i wedi cymryd cam yn ôl ac adolygu'r holl ddogfennau ac mae hyn yn fy helpu wrth gynnal yr adolygiad rydw i'n gweithio arno ar hyn o bryd. Rydw i'n cyfaddef fy mod i'n colli golwg weithiau ar beth sy'n cael ei ddisgwyl gen i.'*

> *'Roedd yn help mawr cael edrych ar y syniadau sydd y tu ôl i'r marcio a'r adborth. Bydd yn cael effaith ar yr ymarfer o fewn y tîm.'*

> *'Roedd y sesiwn yn ddefnyddiol iawn i geisio cael gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau wrth ysgrifennu adolygiadau, sut y dylai pethau gael eu strwythuro a beth mae'r Arolygiaeth Prawf yn chwilio amdano er mwyn cael adolygiad cynhwysfawr – mae hyn yn y gwaith papur, wrth gwrs, ond roedd yr enghraifft yn y sesiwn meincnodi a'r cyfle i'w thrafod wyneb yn wyneb wedi dod â'r peth yn fyw. Roedd digon o amser yn y sesiwn i drafod unrhyw feysydd rydym yn ansicr amdanynt neu i gael mwy o eglurhad arnynt, ac roedd hynny o gymorth mawr. Byddwn yn falch o gael mwy o sesiynau rheolaidd fel hon yn y dyfodol.'*

Er mwyn paratoi at y sesiynau meincnodi rhanbarthol, mae'n ofynnol i reolwyr adolygu ddarllen a pharatoi nodiadau ymlaen llaw. O ran darparu adborth am y sesiynau, maent wedi awgrymu y dylent gael mwy o amser i baratoi, a hynny'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn gallu bod yn anodd paratoi mewn ffordd ystyrlon wrth ddelio â'u llwyth gwaith yr un pryd. Mae rhai rheolwyr adolygu wedi awgrymu hefyd y dylid neilltuo mwy o amser ar gyfer y sesiwn meincnodi ei hun, i ganiatáu mwy o amser ar gyfer trafod, myfyrio a gofyn cwestiynau. Mae'r adborth adeiladol hwn yn dangos pa mor barod yw rheolwyr adolygu i gymryd rhan mewn sesiynau wyneb yn wyneb sy'n edrych yn benodol ar ansawdd adolygiadau TPD a'r ffordd i gymhwyso'r safonau. Byddwn yn ystyried yr adborth wrth ddatblygu'r sesiynau a'u cyflwyno ar raddfa ehangach.

Mae ymgysylltu o'r math hwn gyda rhanbarthau prawf yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu a dal sylw ar ansawdd adolygiadau TPD a chynorthwyo timau adolygu TPD i lawn ddeall a pharhau i ymgorffori'r safonau TPD yn eu gwaith.

Ar y cyd â thîm TPD canolog HMPPS, rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno sesiynau meincnodi ychwanegol y flwyddyn hon sydd wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer yr arweinwyr TPD rhanbarthol sy'n ymgymryd â lefel gyntaf y cydlofnodi. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar gydlofnodi o ansawdd da. Cafwyd derbyniad cadarnhaol i'r sesiynau hyn a byddant yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd pob rhanbarth prawf a'n bod yn hybu ac yn helpu i wella ansawdd adolygiadau TPD.

Yn gyffredinol, y flwyddyn hon, rydym wedi gweld eto fod y rhan fwyaf o dimau adolygu TPD yn barod i dderbyn adborth ar sicrhau ansawdd a'u bod yn teimlo cymhelliad i dderbyn cynigion i gymryd rhan mewn sesiynau datblygu ar feincnodi. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn gyson ar draws yr holl ranbarthau prawf. Mae rhai timau TPD rhanbarthol wedi mynegi rhwystredigaeth wrthym. Ar brydiau, mae hyn wedi ymwneud â'r sgôr gyfansawdd am sicrwydd ansawdd neu rai elfennau o'r adborth. Yn ogystal â hyn, lle nad yw adolygiadau'n cyrraedd y safon ofynnol, mae rhanbarthau wedi mynegi rhwystredigaeth bod yr adborth ar sicrhau ansawdd wedi creu'r angen am fwy o waith, gan fod hyn yn cynyddu eu llwyth gwaith presennol a'u pryderon o ran capasiti.

Er ein bod yn cydnabod y bydd y broses sicrhau ansawdd yn arwain at drafodaethau am y pwyntiau hyn, rydym yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau ansawdd adolygiadau TPD a hyrwyddo gwelliannau. Rydym yn annog rhanbarthau prawf i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr adolygiad yn cyrraedd y safon ansawdd ar adeg ei gyflwyno i'r broses sicrhau ansawdd ac i sicrhau, felly, ei fod hefyd yn cyflawni ei bwrpas arfaethedig.


Ar nodyn cadarnhaol, bydd nifer o reolwyr adolygu yn cysylltu'n unigol â'n harolygwyr TPD i drafod ffyrdd i wella eu hadolygiadau ac mae'n amlwg eu bod yn awyddus i ddatblygu safon eu gwaith. Rydym yn croesawu ymgysylltu o'r fath gan ei fod yn ategu ein hymrwymiad i ddysgu gwersi drwy'r amser a hyrwyddo ansawdd a gwelliant.

Fodd bynnag, er gwaethaf ein hymgysylltu â rhanbarthau prawf, roedd 53 y cant o adolygiadau TPD y flwyddyn hon wedi cael sgôr 'Angen gwella' neu 'Annigonol', ac felly heb gyrraedd y safon ofynnol. Er ein bod yn cydnabod bod tîm canolog HMPPS yn cynorthwyo'r timau TPD mewn rhanbarthau prawf drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau, mae'r sgoriau a roesom am sicrwydd ansawdd yn dangos yn glir fod angen i HMPPS ymateb yn brydlon ac yn rhagweithiol i'r pryderon a nodwyd drwy ein gwaith ar sicrhau ansawdd adolygiadau TPD a bwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion a wnaed er mwyn helpu'r timau adolygu TPD rhanbarthol i gyrraedd y safon ofynnol yn gyson yn eu gwaith.

## Safonau ansawdd unigol

### Dadansoddi ymarfer

| Dadansoddi ymarfer | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dadansoddi tryloyw o asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. | Dull ymchwiliol o weithredu. | Dadansoddi i weld a gymerwyd yr holl gamau rhesymol ar bob lefel. | Edrych ar y rhesymau sylfaenol dros fylchau mewn ymarfer a'u hegluro. | Dynodi ymarfer effeithiol lle bo'n berthnasol. |




| | |
|---|---|
| Outstanding | Rhagorol |
| Good | Da |
| Requires improvement | Angen gwella |
| Inadequate | Annigonol |

**Sylwer bod y set ddata yn gyfuniad o ddwy set ddata a gasglwyd dros y flwyddyn adrodd.**

Mae'r data sicrhau ansawdd ar gyfer y safon hon yn dangos, mewn 56 y cant o adolygiadau TPD, fod y dadansoddiad o'r ymarfer o ansawdd 'Da' neu 'Rhagorol'. Er mai cadarnhaol yw gweld bod ychydig mwy na hanner yr adolygiadau TPD wedi cael y sgoriau hyn am y safon hon, mae hyn yn is mewn gwirionedd na'r ffigur o 65 y cant ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd, yn eu tro, yn y gyfran a gafodd sgôr 'Angen gwella', a chynnydd bach o un i ddau y cant yng nghyfran yr adolygiadau a gafodd sgôr 'Annigonol' am y safon hon.

Mae'n destun pryder bod gostyngiad yn y flwyddyn adrodd hon yn y sgoriau a roddwyd am ddadansoddi ymarfer: roedd 43 y cant o adolygiadau wedi darparu dadansoddiad annigonol o'r cysylltiadau allweddol a'r digwyddiadau arwyddocaol a gafwyd wrth reoli'r achos yn y cyfnod cyn i'r drosedd bellach ddifrifol ddigwydd.

Mae'n bwysig bod rheolwyr adolygu yn edrych ar ymarfer prawf ar bob lefel. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth briodol i ymarfer ar lefel yr unigolyn a'r uned cyflawni prawf, ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, lle bo'n berthnasol.

Wrth ysgrifennu adolygiadau TPD, mae'n bwysig edrych ar y rhesymau sylfaenol dros natur yr ymarfer wrth reoli'r achos. Bydd hyn yn helpu'r rheolwr adolygu i ddadansoddi'r holl ffactorau

perthnasol a thargedu'r gwersi sydd i'w dysgu yn effeithiol ar bob lefel yn y sefydliad lle bo'n berthnasol.

Mae'r dadansoddiad a ddarperir mewn adolygiad TPD yn ymwneud yn gyfan gwbl ag ymarfer prawf ac nid oes disgwyl iddo gynnwys yr ymarfer gan asiantaethau eraill. Er hynny, fe ddylai rheolwyr adolygu roi ystyriaeth i'r rhyng-gysylltu ag asiantaethau sydd hefyd yn ymwneud â rheoli'r achos a'r rôl sydd gan y gwasanaeth prawf yn y cyswllt hwn.

O ganlyniad i'r diwygio diweddar gan HMPPS ar y templed adolygu TPD, bydd gofyn i reolwyr adolygu ganolbwyntio yn eu dadansoddiad ar yr ymarfer yn y cyfnod o chwe mis yn union cyn cyflawni'r drosedd bellach ddifrifol. Ni fyddant yn dadansoddi'r cyfnod cynharach o dan oruchwyliaeth, dim ond yn darparu trosolwg ar y cyd-destun. Er bod disgwyliad y bydd y rheolwr adolygu wedi craffu ar y cyfnod cynharach, ac wedi pennu'r angen am ddysgu unrhyw wersi, ni fydd y dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adolygiad. Gwelir yr effaith o hyn wrth i'r flwyddyn adrodd nesaf fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, rydym wedi codi pryderon cychwynnol na fydd digon o sylw yn cael ei roi i elfennau pwysig yn yr ymarfer cynnar. Mae hyn yn cynnwys gwaith y tîm prawf yn y llys, cynllunio ac ymgysylltu yn y ddalfa a chyn rhyddhau carcharorion, lleoliadau mewn mangreoedd a gymeradwywyd, a'r cyfnod cynharaf wrth reoli'r ddedfryd. Yn y pen draw, gallai hyn effeithio ar raddau'r dealltwriaeth o'r elfennau ymarfer hanfodol hyn a gallai gyfyngu ar gyfleoedd i ganfod a rhannu gwersi i'w dysgu, yn enwedig ar lefel genedlaethol.

Mae hyn yn ychwanegu at y pryderon presennol o'n gweithgarwch sicrhau ansawdd fod y dadansoddi mewn adolygiadau TPD wedi canolbwyntio'n aml ar ymarfer unigolion ac nad yw wedi darparu trosolwg digon cyfannol ar yr holl feysydd ymarfer allweddol, ac ar bob lefel yn y sefydliad.

### Enghraifft o adolygiad TPD: y safon ar ddadansoddi ymarfer lle rhoddwyd sgôr 'Da'

Roedd yr adolygiad TPD wedi darparu dadansoddiad o ddedfryd hir a chymhleth o garchar, mewn ffordd gryno a oedd yn rhoi'r gallu i ddeall yr hanes cronolegol a'r siwrnai fesul cam drwy'r ddedfryd a'r cyfnod rhyddhau.

Roedd y rheolwr adolygu wedi dadansoddi'r ymarfer asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu yn yr achos, gan egluro sut roedd y gwasanaeth prawf wedi rheoli'r drwydded. Amlinellwyd y cysylltiadau allweddol a'r digwyddiadau arwyddocaol gyda dadansoddiad o'r hyn a ddigwyddodd o gymharu â'r ymarfer disgwyliedig.

Roedd naratif am yr asesiad o risg o niwed difrifol yn rhedeg drwy'r adolygiad. Roedd y rheolwr wedi dadansoddi hyn i ganfod a oedd yr asesiad hwn wedi cyfleu'n ddigonol yr holl risgiau ac anghenion yn yr achos. Roedd hyn wedi cyfrannu wedyn at ddadansoddiad y rheolwr adolygu o'r ffordd roedd yr ymarfer perthnasol wedi cymhwyso hyn wrth reoli'r drwydded ryddhau.

Dilynwyd dull gweithredu ymchwiliol gan y rheolwr adolygu a oedd yn ei alluogi i edrych ar yr holl wybodaeth a oedd ar gael am yr achos. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir a gwybodaeth am risgiau, cofnodion carchardai a byrddau parôl, ac asesiadau arbenigol. Yn yr adolygiad, dadansoddwyd sut roedd y rheini a oedd yn ymwneud â rheoli'r achos wedi cymhwyso'r wybodaeth hon at asesu ac ymarfer.


Un agwedd bwysig oedd bod y rheolwr adolygu nid yn unig wedi ystyried sut y cafodd yr achos ei reoli ond hefyd wedi trafod a dadansoddi'r ffactorau cyd-destunol a oedd yn berthnasol wrth reoli'r achos. Er enghraifft, roedd y rheolwr adolygu wedi ystyried a oedd y gallu i ysgwyddo'r llwyth gwaith, profiad a hyfforddiant y staff a'r cymorth a goruchwyliaeth gan reolwyr yn ffactorau perthnasol. Roedd y rheolwr hefyd wedi ystyried sut roedd ymarferwyr wedi mynd ynghylch eu gwaith wrth i'r gwaith hwnnw newid o gamau i reoli'r risg o niwed difrifol i oruchwyliaeth fwy goddefol dros y drwydded. Rhoddwyd sylw hefyd i bolisïau perthnasol a chanllawiau ymarfer wrth lunio'r dadansoddiad cyd-destunol hwn.

Ategwyd y dadansoddiad gan gyfweliadau â'r holl aelodau staff perthnasol yn HMPPS. Yn ogystal â'r staff prawf craidd, roedd y rhain yn cynnwys staff mewn carchardai a'r archwilydd polygraff arbenigol.

Aseswyd bod y safon hon yn 'Dda', a hynny'n adlewyrchu cwmpas a manylder y dadansoddiad a ddarparwyd yn yr adolygiad. Rhoesom adborth manwl i'r rheolwr adolygu ar y meysydd dadansoddi a oedd wedi'u trafod yn drwyadl. Roedd yr adborth hefyd yn awgrymu sut y gellid bod wedi datblygu'r adolygiad ymhellach er mwyn cyrraedd sgôr 'Rhagorol'. Er enghraifft, eglurwyd ble'r oedd angen rhagor o ddadansoddi, a sut y gellid bod wedi casglu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer yr adolygiad o'r cofnodion ViSOR.

### Dyfarniadau ar ddigonolrwydd

| Dyfarniadau ar ddigonolrwydd ymarfer | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyfarniadau clir a chytbwys ar ddigonolrwydd yr ymarfer wedi'u seilio ar dystiolaeth glir. | Dull ymchwiliol, archwiliol a'r holl gyfweliadau perthnasol wedi'u cwblhau. | Darparu dyfarniadau ar ffactorau systemig a gweithdrefnol a oedd yn sail i'r ymarfer. | Darparu dyfarniadau ar yr oruchwyliaeth reoli ar bob lefel. | Darparu dyfarniadau ar gyfraniad y gwasanaeth prawf at weithio mewn partneriaeth. |




| | |
|---|---|
| Outstanding | Rhagorol |
| Good | Da |
| Requires improvement | Angen gwella |
| Inadequate | Annigonol |

**Sylwer bod y set ddata yn gyfuniad o ddwy set ddata a gasglwyd dros y flwyddyn adrodd.**

Mae'r data sicrhau ansawdd am y flwyddyn adrodd hon yn dangos bod 47 y cant o adolygiadau TPD wedi cyrraedd y safon ofynnol o fod yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol'. Mae'r ffigur hwn yn is nag yn y flwyddyn flaenorol pan oedd 53 y cant wedi cael y sgôr hon. Nid oedd unrhyw adolygiadau lle yr aseswyd bod y safon am ddyfarniadau ar ddigonolrwydd yn 'Annigonol'.

Dylai llais y rheolwr adolygu fod yn glir yn yr adolygiad TPD, yn darparu dyfarniadau diamwys ynghylch pa mor dda roedd yr achosion wedi'u rheoli. Dylai'r rheolwr adolygu fod yn glir ynghylch ble'r oedd yr ymarfer wedi cyrraedd y safonau disgwyliedig, a ble nad oedd yr ymarfer

wedi cyrraedd y safonau disgwyliedig. Bydd yn bwysig bod y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos yn glir pam y rhoddwyd y dyfarniad hwnnw.

Mae'n hollbwysig bod rheolwyr adolygu yn ystyried ymarfer ar lefel yr unigolyn, er mwyn dod i gasgliadau ynghylch pa mor dda roedd yr achos wedi'i reoli o gymharu â'r safonau ymarfer disgwyliedig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr adolygiad yn darparu dyfarniadau clir am y ffactorau systemig a gweithdrefnol ehangach a oedd wedi effeithio ar yr ymarfer hwn. Mae'r safon hon yn gofyn hefyd i reolwyr adolygu fod yn glir wrth bwysleisio arwyddocâd ac effaith y diffygion mewn ymarfer, a bod yn gytbwys a chymesur yn eu dyfarniadau.

Roeddem wedi adrodd y flwyddyn ddiwethaf fod rheolwyr adolygu yn cynnal mwy o gyfweliadau gydag arweinwyr uwch ar gyfer adolygiadau TPD. Mae'n beth cadarnhaol ein bod wedi gweld mwy o amrywiaeth o gyfweliadau yn cael eu cynnal eto y flwyddyn hon. Mae'r data ar sicrwydd ansawdd sydd gennym yn dangos bod cyfweliadau ag aelodau staff perthnasol wedi'u cynnal ar gyfer 77 y cant o adolygiadau.

Fodd bynnag, yr agwedd sydd angen ei chryfhau yw'r ffordd y mae'r rheolwr adolygu yn defnyddio'r dystiolaeth hon wedyn wrth ddod i'w ddyfarniadau yn yr adolygiad. Mewn 32 y cant o adolygiadau TPD, gwelsom fod dyfarniadau yn canolbwyntio ar lefel yr unigolyn. Dylai'r rheolwyr adolygu fod wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r holl gyfweliadau i ddarparu dyfarniadau ar ymarfer staff ar bob lefel yn y sefydliad. Bydd hyn yn helpu rheolwyr adolygu hefyd i ddarparu dyfarniadau bob tro ar gyffredinolrwydd ffactorau systemig a gweithdrefnol wrth reoli'r achos. Fe wnaed hyn mewn 57 y cant o'r adolygiadau a aseswyd am sicrwydd ansawdd y flwyddyn hon. Drwy wella ansawdd a chwmpas y dyfarniadau, ceir sicrwydd bod yr adolygiad yn ddigon archwiliol, a bod y gwersi i'w dysgu yn cael eu targedu at y lefel briodol.

### Enghraifft o adolygiad TPD: y safon dyfarnu ar ddigonolrwydd lle rhoddwyd sgôr 'Da'

Roedd llais y rheolwr adolygu yn glir ym mhob rhan o'r adolygiad TPD, yn dyfarnu ar ddigonolrwydd yr ymarfer ar sail dadansoddiad manwl. Roedd y dyfarniadau'n gytbwys, yn pwysleisio lle'r oedd a lle nad oedd yr ymarfer yn cyrraedd safonau disgwyliedig.

Daeth y rheolwr adolygu i gasgliadau ar feysydd ymarfer hanfodol a daliodd ei sylw'n briodol ar y ffactorau cyd-destunol a oedd yn sail i hyn. O ganlyniad i hyn, cafwyd dyfarniadau clir am effaith y llwyth gwaith ar bob un o'r ymarferwyr ac ar ansawdd yr oruchwyliaeth reoli ar y lefelau canol ac uwch. Roedd hyn yn neilltuol o bwysig yn yr adolygiad hwn gan fod yr achos yn galw am oruchwyliaeth gan uwch arweinydd, ac roedd y rheolwr adolygu wedi dadansoddi'r agwedd hon yn dda. Felly, roedd y rheolwr adolygu yn gallu dod i gasgliadau ynghylch y graddau roedd yr ymarfer ar y lefel hon yn cwrdd â'r disgwyliadau, a'r effaith a gafodd ar y gwaith o reoli'r achos.

Roedd y dyfarniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau a gynhaliwyd, a'r ffynonellau gwybodaeth ychwanegol roedd y rheolwr adolygu wedi gwneud defnydd ohonynt.

Roedd y rheolwr adolygu wedi pwysleisio lle'r oedd y canfyddiadau am ymarfer wedi'u gweld yn rhai arwyddocaol ar gyfer rheoli'r achos yng nghyd-destun y risg o niwed difrifol a wynebwyd, ac amgylchiadau'r drosedd bellach ddifrifol.

Mae enghreifftiau isod o'r ffordd roedd y rheolwr adolygu wedi amlygu dull ymchwiliol a oedd wedi'i helpu i ddod i ddyfarniadau:

> *'Ni chofnodwyd unrhyw oruchwyliaeth reoli gan unrhyw SPO [uwch swyddog prawf] ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod rhyddhau hwn mewn perthynas â'r penderfyniad i gadw'r achos gyda'r ymarferydd prawf, er bod y rhan fwyaf o'r rheolwyr yn yr uned cyflawni prawf (PDU) hon yn ymwybodol o ystyriaethau roedd yr ymarferydd prawf wedi parhau i dynnu sylw atynt am nifer o fisoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae*

*tystiolaeth nad oedd y rheolwyr yn yr uned cyflawni prawf hon wedi gweithio mewn ffordd mor gydlynus ag y gallent, a byddent wedi gallu gwneud mwy o reoli ar y cyd i helpu ei gilydd, gan helpu i hybu llesiant staff drwy wneud hynny. Felly, mae camau gweithredu wedi'u pennu mewn perthynas â hyn.'*


*'Nid oedd Pennaeth y PDU wedi darparu tystiolaeth o'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd i gyflawni adolygiadau MAPPA[9] Lefel 1 yn y PDU ac, felly, nid wyf yn sicr bod proses o'r fath ar waith. Rwyf wedi casglu data ynghylch cyflawni adolygiadau MAPPA Lefel 1 yn yr ardal ar hyn o bryd ac mae nifer yr adolygiadau Lefel 1 hwyr yn y PDU ar lefel uchel. Mae diffyg yn y ddarpariaeth ffurfiol ar gyfer llenwi swyddi yn ystod absenoldeb salwch wedi effeithio ar yr ardal hon ac ar y sefyllfa staffio yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb a threfniadaeth ar gyfer tracio a chyflawni adolygiadau MAPPA Lefel 1 yn y PDU. Rwyf yn ymwybodol bod adolygiadau MAPPA Lefel 1 yn cael eu hailystyried ar lefel ranbarthol er mwyn eu cyflawni'n well ac felly mae cam gweithredu wedi'i bennu'n benodol i'r PDU i ofyn iddynt ystyried sut byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r broses hon ac yn cymhwyso'r polisi mewn ffordd gyson ac effeithiol.'*

Er mwyn datblygu'r safon hon ymhellach i gyrraedd sgôr 'Rhagorol', gellid bod wedi darparu dyfarniadau hefyd ar y mangreoedd a gymeradwywyd a phwysigrwydd eu rôl o ran arsylwi a chofnodi'r amser y mae rhywun ar brawf yn preswylio yno. Hefyd, yn yr un modd â'r adborth am ddadansoddi ymarfer, byddai wedi bod o gymorth hefyd i'r rheolwr adolygu roi ystyriaeth i'r defnydd o gofnodion ViSOR wrth ddyfarnu ar y maes ymarfer hwn.

## Dysgu gwersi

| Dysgu gwersi | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nodi'r holl wersi perthnasol i'w dysgu. | Troi'r gwersi i'w dysgu yn gamau gweithredu ar gyfer datblygu. | Mae'r cynllun gweithredu yn delio â diffygion mewn ymarfer ar bob lefel lle bo'n berthnasol. | Nodi camau gweithredu CAMPUS ac egluro sut bydd effaith y camau'n cael ei mesur. | Cydlofnodi effeithiol sy'n sicrhau bod yr adolygiad yn nodi'r holl gyfleoedd i ddysgu. |

[9] Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn helpu i reoli'r rheini sydd wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar a rhywiol. Mae MAPPA yn cynnwys tri chategori a thair lefel ar gyfer rheoli troseddwyr, a lefel 3 yw'r lefel reoli uchaf. [Multi-agency public protection arrangements (MAPPA): Guidance - GOV.UK]




| | |
|---|---|
| Outstanding | Rhagorol |
| Good | Da |
| Requires improvement | Angen gwella |
| Inadequate | Annigonol |

**Sylwer bod y set ddata yn gyfuniad o ddwy set ddata a gasglwyd dros y flwyddyn adrodd.**

Mae'r safon ar ddysgu gwersi yn ymwneud â pha mor dda y mae'r adolygiad TPD o ran nodi cyfleoedd i ddysgu a'u troi'n gamau gweithredu pendant ar gyfer datblygu unwaith y bydd y rheolwr adolygu wedi dadansoddi safon yr ymarfer yn yr achos a dyfarnu ar yr ymarfer hwnnw. Rhaid i reolwyr adolygu sicrhau bod y cynllun gweithredu yn dangos yn glir sut bydd effaith y camau gweithredu yn cael ei mesur.

Roedd y sgoriau sicrhau ansawdd am y flwyddyn adrodd hon yn dangos bod 44 y cant o adolygiadau wedi cael sgôr 'Da' ar gyfer y safon hon. Mae'r gyfran hon yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol; er hynny, cafwyd gostyngiad yn y nifer a gafodd sgôr 'Rhagorol'. Felly, yn gyffredinol, cafwyd cynnydd yn y nifer sydd heb gyrraedd y safon ofynnol, a 55 y cant wedi cael sgôr 'Angen gwella' ac un y cant wedi cael sgôr 'Annigonol'.

Mae ein gweithgarwch sicrhau ansawdd yn dangos bod angen i reolwyr adolygu fynd ati'n fwy effeithiol i ddynodi gwersi i'w dysgu ar bob lefel yn HMPPS, gan fod 41 y cant o adolygiadau yn dangos bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

Rhoddwyd pwyslais yn aml yn ein hadborth sicrhau ansawdd ar yr angen i ddatblygu camau gweithredu ymhellach fel eu bod yn ddigon datblygiadol i beri newid. Dylid hefyd gynnwys ffyrdd effeithiol i'w mesur fel y gellir dangos tystiolaeth o gynnydd a'r canlyniadau a gafwyd. Gwelsom mewn 61 y cant o adolygiadau nad oedd hyn wedi'i wneud yn ddigonol.

Yn aml, byddwn yn gweld bod camau gweithredu wedi'u pennu ar lefel yr unigolyn. Er bod hyn yn bwysig i hyrwyddo dysgu a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau prawf, collir cyfleoedd i rannu'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach a sbarduno newid cadarnhaol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'n canfyddiadau o'r ymgysylltu â staff sydd wedi cael profiad o ddelio â throsedd bellach ddifrifol. Roedd nifer o'r staff hyn yn teimlo bod diwylliant o fwrw bai yn HMPPS, ac roedd y pwyslais ar atebolrwydd a phennu camau gweithredu ar lefel yr unigolyn yn dwysáu'r teimladau hyn. Mae hyn yn dangos eto pa mor bwysig yw hi bod adolygiadau TPD yn rhoi'r sylw mwyaf posibl i gyfleoedd i ddysgu gwersi a datblygu er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i'r diffygion mewn ymarfer a nodir droeon mewn adolygiadau TPD ac yn ein harolygiadau craidd. Mae angen i staff deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn gadarnhaol yn y broses fel y gallant hefyd manteisio ar yr holl gyfleoedd i ddysgu a datblygu ar lefel yr unigolyn.

Mae disgwyl i dimau TPD rhanbarthol lunio diweddariad ar y cynnydd ar gyflawni'r cynllun gweithredu chwe mis ar ôl cyflwyno'r adolygiad ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae pob rhanbarth

prawf yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a gafwyd ar gyflawni'r camau gweithredu, gan benderfynu ar ddigonolrwydd y gwaith a gwblhawyd a'i effaith.

Yn y flwyddyn adrodd nesaf, byddwn yn cychwyn elfen ychwanegol yn ein gweithgarwch sicrhau ansawdd i fonitro digonolrwydd y diweddariad ar y cynllun gweithredu sydd wedi'i gyflwyno. Bob chwarter blwyddyn, byddwn yn cymryd hapsampl o'r diweddariadau ar y cynlluniau gweithredu er mwyn ystyried ansawdd y diweddariad a ddarparwyd, i weld a yw'n dangos bod y camau gweithredu wedi'u cyflawni a beth oedd eu heffaith. Byddwn yn adrodd ar y gweithgarwch sicrhau ansawdd hwn yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar TPD.

Ceir meysydd ymarfer allweddol a nodir yn aml wrth ddysgu gwersi ar ôl TPD sydd hefyd wedi dod i'r amlwg mewn achosion a arolygwyd drwy ein gweithgarwch arolygu craidd. Felly, mae'n glir bod cyfleoedd wedi'u colli i ddysgu gwersi a gweithredu ar sail camau a bennwyd ar lefel ehangach er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i bryderon sy'n codi dro ar ôl tro.

Rydym wedi gweld bod gwersi i'w dysgu a chamau gweithredu a bennwyd o ganlyniad i'n hadolygiadau annibynnol wedi cael effaith yn yr holl ranbarthau prawf. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld nad yw'r cynnydd a wnaed yn y meysydd ymarfer hollbwysig hyn yn cael ei gynnal bob amser at y dyfodol. Rydym yn tynnu sylw eto at yr argymhellion blaenorol a wnaethom i HMPPS ar y pwysigrwydd o sicrhau bod y gwersi i'w dysgu a nodwyd o ganlyniad i drosedd bellach ddifrifol yn cael eu troi'n gamau gweithredu ystyrlon ac effeithiol, a bod proses yn cael ei datblygu i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadborthi i'r sefydliad i gyfrannu at ddatblygiadau mewn rhanbarthau prawf ac yn ehangach ar draws HMPPS.

### Enghraifft o adolygiad TPD: y safon ar ddysgu gwersi lle rhoddwyd sgôr 'Da'

Roedd yr adolygiad TPD wedi nodi gwersi i'w dysgu ar lefel yr unigolyn, y PDU a'r gwasanaeth prawf rhanbarthol.

Roedd cwmpas y dadansoddiad a ddarparwyd gan y rheolwr adolygu yn ei alluogi i gyfleu ble'r oedd angen rhoi sylw i ddiffygion mewn ymarfer drwy bennu'r gwersi i'w dysgu ar lefel ehangach. Un enghraifft o hyn oedd lle nad oedd yr ymarfer ar MAPPA Lefel 1 wedi cyrraedd y safonau disgwyliedig. Roedd y dadansoddiad wedi edrych ymhellach na gwaith yr ymarferydd unigol ac wedi dangos bod yr ymarfer yn gysylltiedig mewn gwirionedd â phrosesau annigonol ar lefel y PDU. O ganlyniad i hyn, pennwyd camau gweithredu ar draws y PDU i gynorthwyo staff a sbarduno gwelliannau mewn ymarfer.


Roedd y cynllun gweithredu wedi trosi'r gwersi i'w dysgu a nodwyd yn gamau gweithredu pendant ac roedd y cynllun yn un manwl a chynhwysfawr. Wrth bennu'r camau gweithredu, cymerwyd yr aelodau staff unigol a'u rolau i ystyriaeth, gan gynnwys addasiadau priodol i sicrhau y byddent yn parhau'n berthnasol lle'r oedd rolau a chyfrifoldebau'n newid wedyn.

Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys ystod eang o ddulliau mesur. Mae'r rhain yn bwysig o ran dangos a yw'r cam gweithredu wedi cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd. Er enghraifft, yn yr achos hwn, roedd y rheolwr adolygu wedi pennu dulliau mesur a oedd yn defnyddio amrywiaeth o ddata am berfformiad yn ogystal â gweithgarwch hapsamplu i fonitro effaith y camau gweithredu ar ymarfer, a defnyddiwyd tîm allanol i gynnal adolygiad o'r newidiadau diwylliannol a gyflwynwyd er mwyn mesur y graddau roeddent wedi datblygu.

Roedd yr adborth ar sicrhau ansawdd wedi tynnu sylw hefyd at agweddau ar y pwyntiau gweithredu y gellid eu datblygu ymhellach. Er. enghraifft, nodwyd rhai elfennau yn y camau gweithredu gofynnol a allai fod yn fwy penodol. Hefyd, mewn perthynas â'r meysydd dadansoddi a dyfarnu y gellid eu hystyried ymhellach, fel cofnodion ViSOR, nodwyd yn yr adborth y byddai hyn yn helpu'r rheolwr datblygu i ganfod a oedd angen nodi rhagor o wersi i'w dysgu a chamau gweithredu.

## Dioddefwyr a'u teuluoedd

| Dioddefwyr a'u teuluoedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r adolygiad TPD yn hawdd ei ddeall ac yn gynhwysol a'r termau proffesiynol wedi'u hegluro. | Mae'n sensitif i anghenion y dioddefwr neu ei deulu. | Mae'n dryloyw ac yn darparu dyfarniadau cytbwys. | Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar faterion perthnasol sy'n fwyaf tebygol o beri pryder. | Rhoddir sicrwydd bod yr holl wersi i'w dysgu wedi'u nodi a'u troi'n gamau gweithredu pendant. |




| | |
|---|---|
| Outstanding | Rhagorol |
| Good | Da |
| Requires improvement | Angen gwella |
| Inadequate | Annigonol |

Yn y safon ddiwygiedig ar ddioddefwyr a'u teuluoedd, newidiwyd y datganiad cyffredinol o 'Mae'r adolygiad TPD yn hawdd ei ddeall gan ddioddefwyr ac yn cwrdd â'u hanghenion' i 'Mae'r adolygiad TPD yn addas i'w rannu â dioddefwyr a'u teuluoedd ac mae'n cwrdd â'u hanghenion'. Cyfunwyd y data a gasglwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn i gynhyrchu'r data sydd wedi'u dangos uchod.

Dylai adolygiad TPD gael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n hawdd ei deall gan yr holl ddarllenwyr, sy'n dryloyw ac yn cyflwyno trosolwg cytbwys ar yr ymarfer allweddol a'r ffordd y cafodd yr achos ei reoli. Bydd hefyd yn sensitif i'r effaith a gaiff y canfyddiadau o'r adolygiad ar y dioddefwr a'i deulu. Mae'r sgoriau sicrwydd ansawdd am y safon hon yn dangos bod angen rhagor o waith i wella ansawdd adolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion y dioddefwr neu aelodau ei deulu.

Y flwyddyn hon, gwelsom gynnydd bach yng nghyfran yr adolygiadau a gafodd sgôr 'Da' am y safon hon o 44 i 49 y cant. Fodd bynnag, mae'r nifer a gafodd sgôr 'Rhagorol' wedi gostwng o naw i un y cant. Mae cyfran y rheini a gafodd sgôr 'Angen gwella' wedi cynyddu o 44 i 56 y cant, a'r nifer a gafodd sgôr 'Annigonol' wedi aros yr un fath ar 2 y cant.

Fel rydym wedi nodi o'r blaen, mae rheolwyr adolygu wedi nodi'n aml fod fformat yr adolygiad TPD yn peri anhawster. Maent wedi nodi pryderon bod llunio dogfen sy'n gweithio fel adroddiad rheoli mewnol ond sydd angen ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn addas i'w rhannu â dioddefwyr a'u teuluoedd yn fater cymhleth. Er bod y sgoriau rydym wedi'u rhoi am sicrwydd ansawdd yn dangos bod modd cyflawni hyn, mae'n glir nad yw adolygiadau'n cyrraedd y safon

hon mewn llawer achos, a hynny'n dangos eto fod angen i HMPPS adolygu fformat yr adolygiad TPD.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cadarnhaol yw gweld bod nifer o ddioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd wedi gofyn am weld yr adolygiad TPD. Credwn fod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Un ohonynt yw cyhoeddi ein hadolygiadau annibynnol yn 2023 a 2024, sydd wedi codi proffil adolygiadau TPD ymhellach. Pan wneir cais am weld yr adolygiad, os yw'r broses sicrhau ansawdd wedi dyfarnu bod angen gwneud rhagor o waith ar yr adolygiad, bydd yn cael ei ailgyflwyno i gael sicrwydd pellach cyn ei rannu'n ehangach.

Pan fydd adolygiadau TPD wedi'u hailgyflwyno i ni cyn eu rhannu â dioddefwyr a'u teuluoedd, mae ein harolygwyr wedi gweld yn aml nad yw'r holl newidiadau a nodwyd yn yr adborth gwreiddiol ar sicrhau ansawdd wedi cael eu cyflawni neu, lle'r oedd newidiadau wedi'u gwneud, nad oeddent yn gynhwysfawr ac nad oeddent yn cyrraedd safon ddigonol. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhoddir adborth pellach ar sicrhau ansawdd am y rhannau o'r adolygiad sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae disgwyliad y bydd y newidiadau hyn wedi'u cwblhau cyn rhannu'r adolygiad â'r dioddefwr neu ei deulu.

Er mwyn monitro ymhellach y graddau y mae newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn adborth ar sicrhau ansawdd, byddwn yn cymryd hapsampl bob chwarter blwyddyn o adolygiadau TPD a gafodd sgôr gyfansawdd 'Angen gwella'. Mae ein data wedi dangos, am yr achosion yn yr hapsampl, fod rhai newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn adborth ar sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, yn aml, nid oedd yr holl newidiadau gofynnol wedi'u gwneud ac roedd hyn yn ymwneud yn benodol gan amlaf â'r safonau ar wersi i'w dysgu a dioddefwyr.

Mae hyn yn dangos, er bod adborth wedi'i ddarparu ar sicrhau ansawdd yn nodi sut y dylid diwygio a gwella'r adolygiad, nad yw'r gwaith hwn wedi'i gyflawni fel y dylid ei wneud. Nid yw hyn yn gyson â'r gofynion am gwblhau diwygiadau o fewn pedair wythnos ar ôl darparu'r adborth, ac am fonitro a goruchwylio hyn gan y rhanbarthau prawf er mwyn sicrhau bod y diwygiadau wedi'u cwblhau'n brydlon ac at safon ddigonol.

Mae'n destun pryder bod hyn yn dangos nad yw rhanbarthau prawf wedi cymhwyso'r gwersi i'w dysgu a nodwyd mewn adborth ar sicrhau ansawdd mewn ffordd amserol a thrwyadl. Mae hyn yn golygu, yn ei dro, y bydd y rhanbarth prawf yn llai ymatebol i'r dioddefwr neu aelod o'i deulu. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnydd cyson yn nifer y ceisiadau gan ddioddefwyr neu eu teuluoedd yn dangos pa mor bwysig yw cwblhau adolygiadau TPD yn amserol. Mae angen i HMPPS leihau nifer yr adolygiadau TPD sydd heb eu cwblhau er mwyn sicrhau na fydd oedi diangen wrth rannu'r canfyddiadau o adolygiadau.

### Enghraifft o adolygiad TPD: y safon ar ddioddefwyr a'u teuluoedd lle rhoddwyd sgôr 'Da'

Roedd yr adolygiad yn hawdd ei ddeall gan y lleygwr ac wedi'i seilio ar ddull clir ac eglurhaol. Un cryfder penodol a nodwyd oedd yr eglurhad gan y rheolwr adolygu o'r prosesau a thermau cymhleth a oedd yn ymwneud yn benodol â'r ddedfryd hir yn yr achos hwn. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y risg o niwed difrifol a welwyd yn yr achos a oedd yn berthnasol i amgylchiadau'r drosedd bellach ddifrifol, ac roedd yn trafod hyn mewn ffordd sensitif.

O ganlyniad i ddarparu dadansoddiad a dyfarniad trylwyr, cafwyd adolygiad TPD a oedd yn cyflwyno canfyddiadau tryloyw ac yn dal sylw yn briodol ar yr ymarfer ar bob lefel. Roedd yn bwysig bod y ffactorau cyd-destunol perthnasol wedi cael eu cynnwys. Roedd hyn yn golygu bod yr adolygiad yn un cytbwys ac yn helpu'r rheolwr adolygu i bennu gwersi i'w dysgu a chamau gweithredu ar wahanol lefelau ar draws y sefydliad.

Roedd yr adborth ar yr adolygiad yn darparu pwyntiau ar gyfer datblygu i'w hystyried gan y rheolwr adolygu mewn perthynas â rhai agweddau ar iaith a gramadeg a mân wallau y gellid eu cywiro'n rhwydd.

## Troseddau Pellach Difrifol – datblygu diwylliant dysgu

Mae diwylliant dysgu sefydliadol yn hanfodol i hyrwyddo a chynnal datblygiad proffesiynol parhaus, cadernid, y gallu i addasu a diogelwch seicolegol[10]. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n sbarduno llwyddiant sefydliadol.

Y flwyddyn hon, dosbarthwyd arolwg staff i'r holl ranbarthau prawf i gyfrannu i'r adroddiad blynyddol hwn ac i brosiect ymchwil arfaethedig ar ddatblygu diwylliant dysgu mewn perthynas â TPD. Dyfeisiwyd yr arolwg ar y cyd gan arolygwyr TPD a thîm ymchwil yn Arolygiaeth Prawf EF. Roedd yr holl ranbarthau prawf wedi'u cynrychioli yn y 245 o ymatebion i'r arolwg a gwblhawyd.

Y gynulleidfa a dargedwyd oedd ymarferwyr prawf gweithredol, ac roedd 88 y cant o'r ymatebwyr yn cyflawni rolau gweithredol diffiniedig ar wahanol raddau. Roedd y gweddill yn cyflawni rolau perthynol i weithredu, fel arbenigwyr, uwch reolwyr, gweinyddwyr achosion, neu weithwyr cyswllt i ddioddefwyr. Roedd bron hanner (49 y cant) wedi bod yn eu swydd am bum mlynedd neu fwy a 10 y cant wedi bod yn eu swydd am 12 mis neu lai.

**Y prif ganfyddiadau**

- Roedd mwyafrif helaeth (80 y cant) wedi cael profiad uniongyrchol o drosedd bellach ddifrifol, boed fel ymarferydd prawf yn rheoli'r achos (44 y cant), ei reolwr llinell (14 y cant), neu fel cydweithiwr (7 y cant).
- Roedd pedwar ym mhob 10 o ymarferwyr a rheolwyr a gymerodd ran mewn adolygiad TPD wedi dweud nad oedd y broses adolygu TPD (38 y cant) na rolau'r rheini a oedd yn gysylltiedig (39 y cant) wedi cael eu hegluro'n briodol.
- Roedd un ym mhob pedwar (26 y cant) o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg yn credu nad oedd y gwasanaeth prawf yn cymell aelodau staff i adrodd ar broblemau a materion a oedd yn effeithio ar y gallu i amddiffyn y cyhoedd, er bod 43 y cant ohonynt yn sicr ei fod yn gwneud hynny.
- Nid oedd y mwyafrif (55 y cant) yn credu bod digon o gymorth i staff sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau TPD.
- Roedd llai na chwarter (23 y cant) yn credu bod digon o gyfleoedd i ddysgu gwersi o adolygiadau TPD.
- Roedd pedwar ym mhob 10 (38 y cant) o ymatebwyr yn fwy hyderus eu bod wedi newid eu hymarfer proffesiynol yn unol â'r canfyddiadau mewn adolygiadau TPD.
- Roedd tri ym mhob 10 (30 y cant) wedi mynegi bodlonrwydd bod adolygiadau TPD HMPPS yn gymorth, a 33 y cant wedi mynegi barn debyg am adolygiadau annibynnol Arolygiaeth Prawf EF.

**Pwrpas**

Er mwyn deall canfyddiadau ymysg staff o'r diwylliant sefydliadol mewn perthynas â TPD, gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylwadau am y cymorth sydd ar gael, cyfleoedd i ddysgu a newidiadau mewn ymarfer o ganlyniad i adolygiadau TPD.

Y themâu a gododd yn gyson yn y sylwadau hyn am destunau pryder oedd:

- ofn ynghylch y posibilrwydd y byddai trosedd bellach ddifrifol yn digwydd yn eu llwyth achosion
- straen a gorbryder am broses yr adolygiad TPD a'i oblygiadau

[10] Mae diogelwch seicolegol yn gred a rennir bod pobl yn gallu cymryd risgiau priodol heb ofn cael eu cosbi neu eu bychanu. Mae'n agwedd allweddol ar ddiwylliant tîm iach a gall gael effaith gadarnhaol ar berfformiad y tîm, ei greadigedd a'i allu i arloesi.

- y canfyddiad bod atebolrwydd yn cael ei briodoli i'r unigolyn yn hytrach na'r sefydliad; methu â rhoi sylw i faterion gweithdrefnol a systemig ehangach
- yr effaith emosiynol o'r hyn a welir yn ddull holiadol mewn cyfweliadau am TPD sy'n canolbwyntio ar ganfod bai yn hytrach na dysgu gwersi
- pryderon am ddiffyg tryloywder mewn adolygiadau TPD, yr angen am gael gwell eglurhad o'r broses, a chyfle i weld yr adolygiad llawn
- rhwystredigaeth ynghylch diffyg cefnogaeth emosiynol ac ymarferol gan reolwyr ac uwch arweinwyr yn ystod y broses TPD
- canfyddiadau o effaith negyddol ar forâl y tîm a chynnydd yn y llwyth gwaith i gydweithwyr o ganlyniad i gamau gweithredu'r adolygiad TPD
- rhwystredigaeth o ganlyniad i'r canfyddiad bod adolygiadau TPD yn canolbwyntio ar fylchau bach mewn ymarfer sydd heb gysylltiad uniongyrchol â'r drosedd bellach ddifrifol, ac nad yw'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn rhoi sylw i faterion cyd-destunol fel y llwyth achosion, staffio a materion yn ymwneud â goruchwyliaeth reoli.

Er hynny, roedd enghreifftiau clir o brofiadau cadarnhaol yn y broses adolygu TPD, yn cynnwys:

- cefnogaeth gan reolwyr, arweinwyr a chydweithwyr yn ystod y broses adolygu TPD ac wedyn
- ymarferwyr yn dysgu gwersi ac yn gwella eu hymarfer proffesiynol yn dilyn adolygiadau TPD
- ymarferwyr yn profi empathi, cefnogaeth ac anogaeth gan reolwyr adolygu TPD.

**Themâu allweddol**

Pan ofynnwyd i ymatebwyr ddarparu myfyrdodau ar y broses adolygu TPD, yn cynnwys y cyfleoedd i ddysgu gwersi a meysydd i'w gwella, nodwyd nifer o themâu allweddol sydd wedi'u hegluro yn y dyfyniadau isod.

### *Canfyddiad bod diwylliant o fwrw bai mewn perthynas â TPD*

Er bod canllawiau gweithredol HMPPS ar adolygiadau TPD (Atodiad B) yn mynnu nad yw'r broses adolygu yn ymwneud â dyrannu bai, roedd nifer o ymatebwyr wedi rhoi disgrifiadau manwl o'u profiadau o deimlo bod bai yn cael ei briodoli iddynt fel unigolion, ac wedi nodi canfyddiad bod ffactorau sefydliadol fel hyfforddiant a llwythi gwaith yn cael eu hanwybyddu gan reolwyr adolygu TPD ac uwch arweinwyr yn ystod yr ymchwiliad.

> *"Cefais fy nghyf-weld am ddiwrnod a hanner am yr achos. Roeddwn yn cael fy arwain i gredu drwy'r amser fod diffyg yn fy ymarfer, a bod bai arnaf i fod y drosedd bellach ddifrifol wedi digwydd. Dywedais o'r dechrau fod y drosedd wedi digwydd o ganlyniad i gynnig llety anaddas i'r troseddwr ar y pryd."*

> *"Rydw i wedi gweld cydweithiwr, a oedd eisoes wedi'i lorio o ganlyniad i'r drosedd bellach ddifrifol ei hun, yn cael ei dynnu'n ddarnau gan y broses TPD, i'r graddau ei fod wedi gadael y gwasanaeth. Mae TPD yn dod â phwysau emosiynol trwm yn eu sgil ac er fy mod yn cytuno bod angen edrych ar yr ymarfer ac adolygu achosion, mae cymaint o fwrw bai fel ei bod yn teimlo'n wenwynig a brawychus. Mae'n ymddangos mai'r neges sy'n cael ei chyfleu yw nid 'mae'r person hwn wedi cyflawni trosedd X, sut y gallwn ni weithio i leihau'r risg o'i gweld yn digwydd?' ond yn hytrach 'mae rhywun wedi cyflawni trosedd X, gadewch i ni weld faint o ffyrdd y gallwn ni feio'r ymarferydd am hyn'."*

> *“Roeddwn i’n teimlo’n gryf nad oeddwn yn cael cefnogaeth ac fy mod yn cael fy meio am y drosedd bellach ddifrifol. Deuthum o’r cwmni adsefydlu cymunedol[11] ac aros gyda llwyth gwaith mawr cyn mynd ag ef i’r hyfforddiant PQiP[12]. Ni chefais unrhyw hyfforddiant wrth ymuno â’r gwasanaeth ac roedd y materion a godwyd yn yr adolygiad TPD yn bethau nad oeddwn wedi cael fy nghyfarwyddo i chwilio amdanynt mewn achos o ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant a llwythi achosion mawr, ond nid oedd hyn wedi’i ystyried na’i gydnabod yn ystod y cyfweliadau TPD.”*

> *“Pan ydw i wedi cymryd rhan mewn adolygiadau TPD, maent wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar fwrw bai, heb fawr ddim gwerthfawrogiad o’r camau cadarnhaol a gymerwyd ac ymagwedd ‘os gallwn ni roi’r bai ar y person hwnnw, yna bydd hwnnw’n gyfrifol amdano’ ac nid felly y mae i fod o gwbl.”*

> *“Ni ddylid disgwyl i staff gymryd cyfrifoldeb dros y drosedd bellach ddifrifol fel pe baen nhw wedi’i hachosi, sef yr hyn y mae llawer o aelodau staff yn teimlo ei fod yn digwydd, yn ôl pob golwg, wrth drafod TPD ac yn y broses cyf-weld.”*

> *“Fel swyddog, rydw i’n teimlo ein bod ni’n cael ein cymell i deimlo mwy o gyfrifoldeb am y drosedd na’r cyflawnydd ei hun, ar brydiau, a’n bod yn cael ein gadael yn teimlo’n euog am nad oeddem yn gallu ei rhag-weld. Pan ddefnyddir TPD fel enghreifftiau ar gyfer hyfforddi, bydd y sylw’n cael ei roi bob amser i’r hyn a wnaeth neu na wnaeth y swyddog (a dyna’r amcan, wrth gwrs) ond mae’r pwyslais ar fwrw bai ar y swyddog yn glir.”*

### *Straen a gorbryder o ganlyniad i’r broses adolygu TPD*

Un thema a fynegwyd yn gryf gan ymatebwyr oedd bod diogelwch seicolegol* yn cael ei danseilio wrth gymryd rhan mewn adolygiad TPD, a bod canfyddiad eu bod yn esgeulus wrth gyflawni eu rôl.

> *“Roedd y broses TPD wedi achosi llawer o straen a gorbryder yn gysylltiedig â gwaith ac roeddwn wedi bod yn absennol oherwydd salwch am sawl mis o ganlyniad i hyn. Teimlwn na allwn roi’r gwersi a ddysgwyd ar waith oherwydd y nifer mawr o achosion a oedd gen i ac roedd hyn, yn ei dro, wedi achosi mwy o orbryder am fod arna i eisiau dangos tystiolaeth o fod wedi dysgu gwersi o’r adolygiad TPD. Roeddwn hefyd yn teimlo nad oeddwn yn derbyn cefnogaeth na chydymdeimlad yn ystod y broses ac roedd hyn wedi arwain at fwy o orbryder yn gysylltiedig â gwaith. Teimlwn fy mod yn cael fy ngweld yn gorymateb i’r adolygiad TPD ac i’r effaith a gafodd hyn arnaf fel ymarferydd ac mewn perthynas â’m bywyd personol. Roedd yr effaith hon yn un sylweddol, ac nid wyf yn credu i mi gael cefnogaeth ddigon da yn ystod y broses. Cefais fy atgyfeirio ar gyfer cwnsela am drawma ar ôl hyn. Fodd bynnag, teimlaf nad oedd y cwnselydd trawma (drwy PAM Assist)[13] yn gwrando arnaf ac roedd y sesiynau’n fyr a di-fudd.”*

> *“Mae cael llythyr drwy’r post yn dweud y gallwn i fynd o flaen llys am esgeuluster difrifol yn ffordd esgeulus o drin staff ynddi ei hun … ni ofynnwyd erioed i mi sut roeddwn yn teimlo wedi i rywun roeddwn yn gweithio gydag ef gyflawni trosedd erchyll (nid yw wedi ei gael yn euog eto). Cyn yr adolygiad TPD, roedd gen i feddwl mawr o’r*

[11] Cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) oedd yr enw ar gyflenwyr gwasanaethau prawf yn y sector preifat.
[12] Rhaglen y Cymhwyster Prawf Proffesiynol (PQiP) yw’r rhaglen ar gyfer swyddogion prawf dan hyfforddiant.
[13] Mae PAM Assist yn rhaglen cynorthwyo cyflogeion yn HMPPS.

*gwasanaeth prawf, roeddwn yn aelod brwd o'r tîm. Yn ddiweddar, rydw i wedi cael diagnosis am PTSD, gorbryder ac iselder o ganlyniad uniongyrchol i'r broses TPD. Rwyf yn teimlo mai'r annhegwch sydd wedi cael yr effaith fwyaf arnaf."*

*"Yn ystod adolygiadau TPD, byddwch yn teimlo mai chi yw testun yr ymchwiliad ac mai chi sydd ar fai. Does dim cefnogaeth, ac rydych i fod i ddal ymlaen fel arfer wrth deimlo bod bwyell ar fin disgyn arnoch. Mae'n ymddangos nad oes empathi i'w gael gan uwch reolwyr ac nad oes cefnogaeth wedi'i darparu. Rydw i'n adnabod cydweithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar yn hytrach na mynd drwy'r broses TPD."*

*"Dim ond y wybodaeth a ddarparwyd a'r amser a neilltuwyd sydd gennym wrth weithio. Fodd bynnag, y cwestiwn bob amser yw "pam na wnaethoch chi fwy?" A bod yn onest, pe gallwn i, byddwn i'n ymdrechu i'r eithaf i atal trosedd bellach ddifrifol a'i heffaith ar ddioddefwyr, ond mae yna ffactorau eraill sydd heb eu hystyried mewn adolygiad TPD ac mae hyn yn peri i staff deimlo'n gyfrifol am y drosedd (mae hyn yn wir am bob un ohonom), yn orbryderus, yn euog, yn poeni am y broses, yn pryderu nad yw wedi gwneud digon, diffyg hunan-barch, ac yn dymuno gweithio yn rhywle heblaw'r gwasanaeth."*

### *Rôl yr adolygwyr TPD*

Roedd gwahaniaeth barn ymysg ymatebwyr am rôl yr adolygwyr TPD, yn seiliedig ar eu dull o weithredu a'r canfyddiad eu bod yn ceisio bwrw bai yn hytrach na chanfod gwersi i'w dysgu.

*"Roeddwn yn gweld yr adolygwyr TPD yn gwneud gwaith rhagorol ac yn cynnig cymorth ardderchog i mi ac i'r tîm yn ystod cyfnod gofidus iawn iddynt yn dilyn cyflawni lladdiad gan rywun a oedd ar brawf. Y gwaith dilynol yw'r unig beth sydd angen ei wella."*

*"Rydw i wedi cymryd rhan mewn nifer o adolygiadau TPD a chredaf fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y profiad a dull o weithredu'r person sy'n cynnal yr adolygiad. Rydw i wedi cael fy nghyf-weld gan uwch swyddog prawf empathig a oedd newydd gael ei adleoli i'r tîm TPD, ac wedi cael fy nghyf-weld gan rywun a oedd yn ymddangos yn benderfynol o dynnu sylw at ymarfer personol gwael a thanseilio fy mhrofiad neu gymhwystra."*

*"Credaf fod y profiad gorau i'w gael gyda swyddog ymchwilio empathig nad yw'n peri i chi deimlo mai chi yr ymarferydd sydd 'ar fai'. Er ein bod yn gwybod nad yw hyn yn wir, fe all y broses cyf-weld beri i rywun deimlo felly. Credaf fod angen cael dull empathig o gyf-weld yr ymarferydd, fel bod y broses yn brofiad dysgu yn hytrach na phrofiad o holi."*

### *Dysgu gwersi o adolygiadau TPD*

Un thema amlwg arall oedd siom o ystyried nad oedd y broses adolygu TPD yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddysgu a gwella ymarfer. Ym marn rhai, roedd hyn yn ymwneud â chanfyddiad bod diffyg tryloywder am nad oedd yr adolygiad TPD yn cael ei rannu ac, ym marn eraill, roedd y cynllun gweithredu cysylltiedig wedi'i seilio ar brosesau ac yn anodd ei gymhwyso heb ystyried y cyd-destun i'r adolygiad.

*"Byddwn yn cael rhestrau o gamau gweithredu ond dim digon o wybodaeth i ddangos i beth maent yn berthnasol. Nid yw hyn yn adeiladol ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth beth sydd wedi'i wneud eisoes ers yr adolygiad TPD, fel derbyn hyfforddiant …efallai y*

*byddai angen ailadrodd yr hyfforddiant dim ond i ddangos bod y cam gweithredu wedi'i gyflawni."*

> *"Rydym wedi creu system adrodd rhy fiwrocrataidd nad yw'n cynnig cyfleoedd rhwydd i ddysgu gwersi. Mae'r adroddiadau'n hir a chymhleth iawn ac yn ceisio apelio at ormod o gynulleidfaoedd. Rydw i'n credu ei bod yn bosibl bod yr adroddiadau'n cwrdd ag anghenion tîm canolog HMPPS, ond nid wyf yn credu eu bod yn hwyluso'r gallu i ddysgu gwersi gan ymarferwyr cystal ag y gallent, e.e., am na chaniateir i'r staff eu darllen, y cwbl y byddant yn ei gael yw rhestr anhwylus a digyswllt o gamau gweithredu sy'n colli eu hystyr wrth ofyn am ymatebion mecanyddol."*

> *"Credaf ei bod yn afresymol nad yw ymarferwyr a'u rheolwyr yn cael gweld adroddiadau TPD. Mae'r dull o roi adborth yn annerbyniol ac yn ddigyswllt. Rydw i wedi gorfod rhoi cynllun gweithredu ar waith gyda staff heb gael dealltwriaeth clir o'r rhesymau na'r cyd-destun."*

> *"Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu targedu am fod y broses TPD mor gyfrinachol. Nid ydym yn cael gweld unrhyw adroddiadau neu sylwadau terfynol. Nid ydym yn cael gwybod a yw materion sefydliadol neu systemig yn cael sylw. Byddwn yn cael cynllun gweithredu i ni ein hunain yn unig ac mae hyn yn iawn, ond byddwn yn meddwl wedyn am y materion eraill rydym wedi'u codi. A roddwyd sylw i'r rheini ac, os gwnaed, sut? Mae angen bod yn sicr bod dull systemau cyfan o ddelio ag adolygiadau TPD."*

> *"A minnau wedi cymryd rhan mewn dau adolygiad TPD yn ystod fy ngyrfa, un yn fwy na degawd yn ôl ac un y llynedd, maen nhw'n dal i fod yn brofiad erchyll. Roedd fy mhrofiad diweddaraf fel un a oedd wedi rheoli'r cleient (ond heb fod yn ei reoli ar adeg y drosedd). Rhoddwyd gwybod i mi fod "nifer" o gamau gweithredu i mi eu cwblhau a phwyntiau dysgu i'w hadolygu. Nid yw'r rhain erioed wedi cael eu rhannu gyda mi er i mi ofyn amdanynt yn aml."*

### *Cydnabod y cyd-destun sefydliadol mewn adolygiadau TPD*

Un thema amlwg a nodwyd gan ymatebwyr oedd diffyg dealltwriaeth ar ran rheolwyr adolygu HMPPS ac arolygwyr Arolygiaeth Prawf EF o'r cyd-destun presennol yn y gwasanaeth prawf (swyddi heb eu llenwi a llwythi achosion a llwythi gwaith mawr). Yn ogystal â hyn, roedd canfyddiad bod adolygwyr yn canolbwyntio'n aml ar fylchau a gwallau bach ac amherthnasol mewn dogfennau nad oeddent yn berthnasol i'r drosedd bellach ddifrifol, heb nemor ddim cydnabyddiaeth i'r gwaith da a oedd wedi'i gyflawni.

> *"Mae'r pwyntiau dysgu yn ymddangos yn amherthnasol i natur gwaith pobl pan fyddant yn symud i swyddi newydd yn y busnes ac maent yn rhy gyfyng – yn canolbwyntio ar y rheini sy'n ymwneud â rheoli achosion yn hytrach na themâu o ran ymarfer gwael sy'n digwydd ar draws y busnes."*

> *"Mae camau gweithredu yn cael eu pennu er eu mwyn eu hunain ac mae hyn yn tanseilio morâl y tîm. Er enghraifft, os oedd un ffurflen wedi'i methu un tro, neu flwch heb gael ei dicio, yna heb unrhyw ymchwil bellach i weld a yw hyn yn broblem ehangach, bydd cam gweithredu yn cael ei bennu. Mae adolygiadau TPD yn tueddu i fwrw'r bai ar ymarferwyr, nid polisïau, canllawiau neu benaethiaid gwasanaeth neu rai uwch."*

*“Mae achosion sy’n cael sylw ar lefel genedlaethol wedi cael effaith amlwg ar ymarfer. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymateb neu ymgais leol i ddatrys materion a fydd bob amser yn cael eu nodi mewn adolygiadau o’r fath – rhannu gwybodaeth, gwiriadau a chyfathrebu.”*

*“Rydw i’n credu bod yr holl wersi sydd i’w dysgu o adolygiadau TPD yn hollbwysig. Fodd bynnag, y broses a’r diwylliant bwrw bai yw’r agwedd sy’n peri ofn a gorbryder. Teimlaf fod y broses adolygu TPD yn ffordd i geisio dod o hyd i dystiolaeth i roi bai ar unigolion yn hytrach nag edrych ar fethiannau yn y gwasanaeth cyfan, fel y capasiti i ddelio â’r llwyth gwaith a galwadau eraill.”*

*“Mae adnoddau’n ffactor pwysig wrth reoli risg. Mae adolygiadau TPD yn cael effaith fawr ar staff rheng flaen sy’n gyfrifol am reoli achosion ac mae hyn wedi cymell staff i adael y gwasanaeth. Bydd yr ymarfer mewn rhai achosion wedi bod yn wael ond mae angen edrych ar hyn yng nghyd-destun eu llwyth gwaith eu hunain a’u gallu a’u hyfforddiant i reoli risg mewn achosion risg uchel.”*

*“Roeddwn hefyd wedi cael fy meirniadu ar sail yr ymarfer mewn asesiadau risg er bod hwnnw wedi newid yn sylweddol ers yr adolygiad TPD. Wrth drafod ymarfer swyddogion goruchwylio mewn asesiadau OASys, dylid canolbwyntio ar yr uwch swyddog prawf sy’n cydlofnodi. Os caiff yr asesiad ei gydlofnodi, yna yr uwch swyddog prawf sydd ar fai am beidio â sicrhau ei fod yn ddigonol. Os bydd fy holl asesiadau OASys yn cael eu cydlofnodi dros gyfnod o bedair blynedd heb eu cyfeirio’n ôl, yna ni fyddaf yn gwybod bod problem yn bodoli. Mae angen i’r broses adolygu fod yn fwy amserol, a byddai adolygiadau gan banel o dan arweiniad cydweithwyr yn fwy buddiol o lawer ac yn edrych ar beth rydym yn gallu ei gyflawni fel tîm yn hytrach nag erlid unigolion.”*

### *Cefnogaeth gan reolwyr yn ystod y broses TPD*

Roedd rhai ymatebwyr wedi’u siomi ym maint y gefnogaeth a gawsant, yn enwedig gan uwch reolwyr nad oeddent yn cael eu gweld yn gefnogol neu’n empathig yn ystod y broses adolygu TPD.

*“Roeddent yn cadw draw mor bell â phosibl oddi wrth fy nghydweithwyr pan oeddent yn cael adolygiad TPD. Doedd dim cefnogaeth wedi’i gynnig iddynt, cafodd un ei atal o’i waith a hwnnw oedd y llanastr mwyaf a welsoch chi erioed. Roedd y tîm cyfan wedi chwalu a chawson ni ein gadael i wneud beth allen ni. Pan ddywedodd rhywun wrth un uwch reolwr ar lefel uchel ein bod yn teimlo nad oedd neb yn poeni amdanom, fe aeth yn ddig ac yn amddiffynnol a pheidio â chymryd sylw ohonon ni. Rydw i’n gwybod bod o leiaf un aelod staff wedi meddwl o ddifrif am ei ladd ei hun am ei fod wedi cael ei ynysu gymaint. Bydd uwch reolwyr yn dweud wrth bobl am gysylltu â PAM Assist ac yn ei adael ar hynny. Does dim gofal o gwbl am y staff.”*

*“Roedd fy nghynllun gweithredu wedi’i gyflwyno i mi mewn ffordd wael – doedd dim amser penodol wedi’i neilltuo ar gyfer hyn. Yn lle hynny, cefais fy nhynnu i ystafell yn ddirybudd gan reolwr ac fe’i darllenwyd i mi. Wrth gyflwyno’r cynllun gweithredu, rhoddwyd gwybodaeth a chamau gweithredu anghywir – aeth sawl wythnos heibio cyn cywiro hyn. Yn gyffredinol, roedd yn broses siomedig ac anghefnogol.”*

*“Hefyd doedd dim sylw wedi’i roi i’m llwyth gwaith mewn un adolygiad roeddwn wedi cymryd rhan ynddo. Ar y pryd, roedd gen i lwyth gwaith o 165% ar yr offeryn rheoli*

*llwythi gwaith. Er hynny, beirniadwyd rhywfaint o'm hymarfer. Roeddwn hefyd o dan law'r tîm iechyd galwedigaethol ar y pryd, yn profi gorbryder ac, er fy mod wedi rhoi gwybod am hyn, doedd dim cydnabyddiaeth bod yr uwch swyddog prawf ar y pryd wedi methu â'm cynorthwyo yn unol â'r canllawiau. Unwaith roeddwn wedi cwblhau'r cynllun gweithredu, ni chlywais ddim wedyn gan yr uwch swyddog prawf na'r tîm TPD."*

*"Doedd dim cymorth iechyd meddwl cyn ac ar ôl y cyfweliadau er bod y rheolwyr yn ymwybodol fy mod yn ymgodymu â phroblemau iechyd meddwl. Roeddwn yn teimlo'n agored iawn i niwed o ganlyniad i hyn."*

*"Mae'r bygythiad o adolygiad TPD yn cael ei ddefnyddio yn fy swyddfa i greu diwylliant o gosb ac ofn ymysg staff sy'n cael ei achosi a'i barhau gan reolwyr. Ni welaf unrhyw ymgais i wneud i staff deimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u cefnogi ac rydym wedi colli aelodau staff profiadol o ganlyniad i'r ffordd y maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin."*

### *Profiadau cadarnhaol o adolygiadau TPD*

Roedd ymatebwyr wedi nodi rhai profiadau cadarnhaol yn ystod y broses adolygu TPD. Dywedwyd wrthym fod y gefnogaeth a'r empathi a gawsant ar adeg anodd gan gydweithwyr, rheolwyr ac uwch arweinwyr wedi cyfrannu at y profiad hwn. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi sôn am ddysgu gwersi o adolygiadau TPD, am gydfyfyrio â chydweithwyr ac am wella ymarfer proffesiynol.

*"Roedd y cyfwelydd yn gefnogol ac yn llawn cydymdeimlad, gan wneud i mi deimlo'n gartrefol a minnau'n swyddog newydd gymhwyso ar adeg yr adolygiad TPD. Rydw i'n meddwl bod mwy o gefnogaeth yn cael ei chynnig i staff o ddechrau'r adolygiad erbyn hyn. Teimlaf fod mewnbwn rheolaidd i waith datblygiad proffesiynol parhaus neu i gyfarfodydd tîm gan y tîm TPD yn beth buddiol, gan fod nifer o ymarferwyr newydd a rhai mwy profiadol yn dal i ofni'r broses."*

*"Roedd y swyddog cyf-weld yn ystod yr adolygiad TPD yn llawn cydymdeimlad ac wedi fy sicrhau nad oeddwn wedi gwneud dim o'i le. Diolch iddi hi, roedd y cyfweliad ymhell o fod mor drawmatig ag roeddwn wedi dychmygu. Roeddwn yn teimlo bod y cyfnod cyn y cyfweliad yn achosi straen mawr; er hynny, cefais gefnogaeth gan fy rheolwr a'm cydweithwyr."*

*"Yn gyffredinol, mae adolygiadau TPD yn ddigwyddiadau sy'n achosi straen mawr, ac nid wyf yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwneud digon i gynorthwyo staff ar yr adeg hon a barnu yn ôl fy mhrofiadau hyd yn hyn. Nid wyf yn cynnwys fy rheolwr llinell yn hynny o beth. Mae ef yn gwneud popeth yn ei allu i gynnig cymorth, ond mae pethau sydd y tu hwnt i'w reolaeth."*

*"Cynhaliwyd yr adolygiad TPD diweddaraf mewn ffordd a oedd yn fy helpu i ddatblygu fy ymarfer ymhellach, yn enwedig ym maes cydweithio amlasiantaethol."*

*"Roedd fy mhrofiad wrth gymryd rhan yn ddiweddar yn un cadarnhaol. Teimlwn fy mod yn cael fy nghefnogi drwy gydol yr amser ac rwyf wedi rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith ers hynny."*

*"Mae'n ymddangos bod fy ardal i'n dda iawn o ran rhannu'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau'r Arolygiaeth Prawf a'u cynnwys mewn hyfforddiant ac ymarfer mewn ffordd fuddiol iawn."*

> *"Mae'r adroddiadau gan HMPPS a'r Arolygiaeth Prawf ar TPD yn gymorth mawr a byddaf yn treulio amser bob tro yn darllen yr adolygiadau a gyhoeddwyd ar wefan yr Arolygiaeth. Rydw i wedi gweld bod y rhain yn ddefnyddiol iawn ac wedi rhoi eu hargymhellion ar waith yn fy ymarfer i ac ymarfer fy nhîm."*

**Crynodeb**

Roedd yr ofn ymysg gweithwyr prawf proffesiynol o gael adolygiad TPD wedi'i amlygu yn ein harolygiad thematig diweddar o rôl yr uwch swyddog prawf,[14] lle nodwyd: 'Yn y rhanbarthau yn Lloegr a arolygwyd, dywedwyd wrthym fod diwylliant o ofn yn ymwreiddio. Mae hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ofn uwch swyddogion prawf a'r angen o ganlyniad i hynny i ddangos tystiolaeth o weithgarwch goruchwylio gan reolwyr'. Roedd yr ofn hwn yn ysgogi ymddygiad amhriodol. Er enghraifft, roedd un gweithiwr prawf proffesiynol wedi dweud, 'Yr ofn o gael adolygiad troseddau pellach difrifol sy'n gwneud i mi ofyn am oruchwyliaeth gan reolwyr. Mae'n ei gwneud yn bosibl amddiffyn penderfyniadau – dyma'r gefnogaeth, y sicrwydd sydd ei angen arnoch chi; nid yw'n golygu nad oes gen i hyder i wneud penderfyniadau, dim ond fy mod i am gael y gefnogaeth honno fel y gallaf i sicrhau ein bod ni i gyd ar Panorama gyda'n gilydd'.

Yn ein harolwg, roeddem wedi ceisio ymchwilio i'r diwylliant sefydliadol sy'n gysylltiedig ag adolygiadau TPD a'r ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i ddysgu yn y sefydliad. Roedd 245 o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am hyn gan rannu eu canfyddiadau am wahanol elfennau yn y broses adolygu, y gefnogaeth a gynigir a'r amgylchedd dysgu ehangach.

Roedd y profiadau a ddisgrifiwyd yn peri pryder am yr effaith ar les staff ac ar eu gallu i ddeall y gwersi a ddysgir a'u cymhwyso. Nododd ymatebwyr fod diwylliant o fwrw bai yn gyffredin o fewn HMPPS a oedd yn cael ei weld yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n helaeth ar atebolrwydd yr unigolyn, heb lawer o gydnabyddiaeth i'r ffactorau sefydliadol sy'n dylanwadu ar ansawdd yr ymarfer gweithredol. Roedd canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod y diwylliant sefydliadol presennol, a welir yn un sy'n cael ei nodweddu gan gosb, diffyg cefnogaeth gan reolwyr a diffyg tryloywder, yn un sy'n cyfyngu'r gallu i ddysgu gwersi a'u cymhwyso, a welir yn rhywbeth angenrheidiol gan ymatebwyr, ac yn arwain at ganlyniadau emosiynol a seicolegol i staff, sydd yn ofni canlyniadau'r broses.

Felly, bydd yn hollbwysig ymdrin â'r materion hyn os yw diwylliant dysgu dan arweiniad y sefydliad i gael ei ddatblygu a'i gydnabod gan staff HMPPS.

[14] Rôl yr uwch swyddog prawf a goruchwyliaeth gan reolwyr yn y Gwasanaeth Prawf

## Ymarfer asesu risg

Un thema sy'n codi'n gyson mewn adolygiadau TPD yw canfyddiad bod yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn rhy isel a/neu yn anghywir.

Mae asesu'r risg o niwed difrifol[15] yn rhan hanfodol o ymarfer prawf, gan mai hyn sy'n sail i'r dull o reoli'r achos. Cynhelir asesiad o'r risg o niwed difrifol er mwyn canfod lefel y risg a achosir i wahanol grwpiau: y cyhoedd, oedolion hysbys, plant, staff a charcharorion. Mae risg i'r hunan yn cael ei ystyried hefyd, ond nid yw lefel risg yn cael ei phriodoli i hyn. Lefelau'r risg o niwed difrifol yw isel, canolig, uchel neu uchel iawn.[16]

Yr offeryn asesu risg a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y gwasanaeth prawf yw OASys (offender assessment system). Bydd yr ymarferydd yn sgrinio am risg ac, wedyn, os bydd meini prawf penodol wedi'u bodloni, bydd yn cwblhau dadansoddiad llawn o'r risgiau a welir yn yr achos. Ar y diwedd, bydd yn darparu crynodeb o'r risg ac yn llunio cynllun rheoli risg. Y cynllun rheoli risg a ddylai fod yn sail i'r dull o reoli'r achos a dylai gynnwys cynllun wrth gefn i'w ystyried a'i ddilyn os bydd y risg o niwed difrifol yn cynyddu.

Ym mhob adolygiad TPD, bydd yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn destun craffu, a dylai'r rheolwr adolygu wirio i ganfod a oedd yr asesiad yn gywir. Bydd yr adolygiad yn trafod yr asesiad o'r risg o niwed difrifol ar ddechrau cyfnod yr adolygiad ac wedyn yn edrych i weld a oedd unrhyw newidiadau yn lefelau'r risg. Mae'r safonau'n gofyn am wneud dyfarniadau digonol mewn perthynas ag asesu risg ar bob cam perthnasol yn yr adolygiad.

Fel y nodwyd yn barod yn yr adroddiad hwn, roedd Arolygiaeth Prawf EF wedi sicrhau ansawdd 87 o adolygiadau rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024. O'r adolygiadau hynny, nodwyd bod 62 yn cynnwys elfennau anghywir yn yr asesiad o niwed difrifol, yn cyfateb i 71 y cant. Roedd hyn yn cynnwys gwahanol fathau o anghywirdeb, fel a ganlyn:

- bod lefel gyffredinol y risg o niwed difrifol yn anghywir o'r dechrau
- bod un neu ragor o grwpiau wedi'u hasesu'n anghywir
- bod lefel y risg o niwed difrifol yn gywir ond nad oedd wedi ystyried y risg a oedd yn codi mewn ffordd gyfannol, neu wedi ystyried pawb a allai wynebu risg yn y gwahanol grwpiau
- nad oedd y risg o niwed difrifol wedi'i hailasesu'n ddigonol, er bod ffactorau risg newydd neu gynyddol wedi dod i'r amlwg
- bod y rheolwr adolygu wedi cytuno â'r asesiad risg cyffredinol ond bod yr arolygydd TPD a oedd yn cynnal y broses sicrhau ansawdd wedi asesu ei fod yn anghywir.

Mewn rhai achosion, gwelwyd mwy nag un math o anghywirdeb, er enghraifft, bod y lefel gyffredinol yn anghywir o'r dechrau, a bod anghysonderau o ran y gwahanol grwpiau risg.

---

[15] Y risg o niwed difrifol yw'r tebygolrwydd o gael digwyddiad trawmatig neu un sy'n peryglu bywyd a allai arwain at niwed corfforol neu seicolegol y mae'n anodd neu'n amhosibl ymadfer ar ei ôl.

[16] **Uchel iawn**: Mae risg bod niwed difrifol ar fin digwydd. **Uchel**: Mae dangosyddion amlwg o'r risg o niwed difrifol, a gallai'r digwyddiad dichonol ddod ar unrhyw adeg. **Canolig**: Mae dangosyddion amlwg o'r risg o niwed difrifol, ond nid yw'r unigolyn yn debygol o achosi niwed oni bai fod newid yn yr amgylchiadau. **Isel**: Nid yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod yr unigolyn yn debygol o achosi niwed difrifol.

Mae hyn yn cael ei ystyried yn fwy manwl isod gydag enghreifftiau cyfatebol.

| **Roedd lefel gyffredinol y risg o niwed difrifol yn anghywir o'r dechrau** |
|---|
| **Enw**: Mr A. |
| **Trosedd fynegai:** Cyflenwi sylwedd dosbarth A, wedi'i chyflawni tra oedd ar drwydded am anafu o dan adran 20. |
| **Trosedd bellach ddifrifol:** Llofruddiaeth. |
| *Cafodd Mr A ei ddedfrydu am y drosedd fynegai heb gael adroddiadau cyn dedfrydu. Roedd ymarferydd prawf llys wedi cwblhau dogfen sgrinio am y risg o niwed difrifol ac nid oedd wedi nodi unrhyw feysydd pryder. Felly nid oedd dadansoddiad llawn wedi'i wneud. Roedd yr ymarfer hwn yn annigonol ac nid oedd wedi ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael, yn cynnwys asesiad blaenorol o lefel y risg o niwed difrifol ar gyfer Mr A a oedd yn dangos risg uchel, lleoliad blaenorol mewn mangre a gymeradwywyd, cysylltiad â gang a'r defnydd o arfau.*<br>*Roedd rheolwyr troseddwyr y carchar wedi cwblhau dau asesiad OASys, y ddau'n nodi bod Mr A yn peri risg ganolig o niwed difrifol i blant ac i'r cyhoedd, a risg isel o niwed difrifol yn yr holl gategorïau eraill.*<br>*Ar ôl ei ryddhau o'r ddalfa, roedd yr ymarferydd prawf wedi cwblhau asesiad OASys, a oedd i bob pwrpas yn ddogfen gopi, ac nid oedd lefel yr asesiad o risg wedi newid.*<br>*Darparwyd dyfarniadau clir drwy gydol yr adolygiad am ddigonolrwydd yr asesu am y risg o niwed difrifol, yn pwysleisio y dylai lefel y risg a aseswyd fod yn uchel ac nad oedd yr asesu am risg wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i natur a chwmpas y risg a achoswyd.* |

Mae hyn yn dangos bod yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn anghywir o'r dechrau, ac nad oedd wedi'i gywiro mewn asesiadau dilynol. Yr effaith o fod heb asesiad cywir o risg oedd nad oedd y cynllun rheoli risg a luniwyd yn addas wedyn i reoli achos lle'r oedd risg uchel o niwed difrifol. Dylid adrodd yn amlach ar achosion lle mae risg uchel o niwed difrifol nag ar achosion lle mae risg ganolig o niwed difrifol. Gellir ymweld â'r cartref yn fwy rheolaidd hefyd. Hefyd, gall achosion o'r fath gyrraedd y trothwy ar gyfer MAPPA neu'r llwybr ar gyfer rheoli troseddwyr sydd ag anhwylder personoliaeth (OPD) a gellir ystyried eu lleoli mewn mangre a gymeradwywyd ar ôl eu rhyddhau. Yn ogystal â hyn, mae strategaethau rheoli risg cysylltiedig â charchardai sy'n fwy tebygol o fod yn gymwys mewn achos lle mae risg uchel o niwed difrifol. Mae effaith ac arwyddocâd asesiadau anghywir o'r risg o niwed difrifol yn cael eu hystyried yn ein hadolygiadau annibynnol, sy'n cael eu trafod yn fanylach isod.

| **Roedd un neu ragor o'r grwpiau risg wedi'u hasesu'n anghywir** |
|---|
| **Enw:** Mr J. |
| **Trosedd fynegai:** Ymosod drwy guro (plentyn 13 oed). |
| **Trosedd bellach ddifrifol:** Ysgogi gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn dan 13 oed. |
| *Aseswyd bod Mr J yn achosi risg ganolig o niwed difrifol i oedolion hysbys a phlant. Roedd y risg yn gysylltiedig â cham-drin domestig a'r drosedd fynegai. Aseswyd ei fod yn peri risg isel o niwed difrifol i'r holl gategorïau risg eraill. Roedd y rheolwr adolygu wedi cyfleu'n glir, er ei fod yn cytuno â'r asesiad cyffredinol o risg, nad oedd yr asesiad o lefel y risg i'r cyhoedd (partneriaid yn y dyfodol) yn gywir ac y dylai fod wedi'i hasesu'n risg ganolig hefyd.*<br>*Nid oedd lefel y risg a aseswyd wedi newid yn ystod cyfnod yr adolygiad, ac mae'r rheolwr adolygu wedi pwysleisio'n briodol fod cyfleoedd wedi'u methu i adolygu'r asesiad risg a'r cynllun rheoli risg a oedd ar waith.* |

Mae anghywirdeb neu asesiad rhy isel ar gyfer grŵp penodol sy'n wynebu risg yn thema gyffredin a welir mewn adolygiadau TPD. O'r 62 o achosion lle'r oedd asesiadau risg anghywir, roedd 45 yn cynnwys asesiadau anghywir ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg. Mae hyn yn gallu effeithio ar y dull o reoli'r achos. Er enghraifft, ni fyddai'n amlwg yn yr achos hwn y byddai partneriaid y dyfodol yn gallu wynebu risg o niwed difrifol oddi wrth Mr J. Wedyn, ni fyddai'r cynllun rheoli risg yn rhoi digon o ystyriaeth i'r ffordd i ddiogelu unrhyw bartneriaid yn y dyfodol, ac i reoli unrhyw risgiau iddynt mewn ffordd effeithiol.

| **Roedd yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn gywir ond nid oedd y risg wedi'i hystyried mewn ffordd gyfannol, neu nid oedd pawb a allai wynebu risg yn y gwahanol grwpiau wedi cael eu hystyried** |
|---|
| **Enw:** Mr X. |
| **Trosedd fynegai:** Difrod troseddol. |
| **Trosedd bellach ddifrifol:** Treisio plentyn dan 13 oed. |
| *Roedd yr asesiad o'r risg o niwed difrifol wedi pennu lefel ganolig ar gyfer y cyhoedd ac oedolion hysbys, a lefel isel ar gyfer yr holl gategorïau eraill. Mae'r adolygiad yn dangos y dylai'r risg o niwed difrifol i blant fod wedi'i phennu ar lefel ganolig, ac nid oedd yr ymarferydd prawf wedi ystyried hyn yn effeithiol. Roedd tystiolaeth am alwadau blaenorol ynghylch cam-drin domestig mewn perthynas â chwaer Mr X, ac ni chymerwyd camau pan gafwyd gwybod bod ei bartner yn feichiog. Nid yw'r adolygiad yn nodi oed ei chwaer. Byddai wedi bod yn fuddiol cynnwys hyn, gan fod y darllenydd yn cymryd ei bod yn blentyn.* |

Methwyd ag asesu unigolion yn yr achos hwn, hyd yn oed pan oedd y categori risg yn gywir. O ganlyniad i hyn, roedd bylchau yn y cynllun rheoli risg, ac nid oedd y rheini a oedd yn rheoli'r achos yn ymwybodol o'r rheini a allai wynebu risg. Oherwydd y diffyg ymchwil i amgylchiadau a pherthnasoedd teuluol Mr X, nid oedd gwybodaeth am y plant y gallai Mr X fod mewn cysylltiad â nhw. Rydym wedi gweld nifer o achosion lle na roddwyd ystyriaeth yn effeithiol i unigolion mewn cynlluniau rheoli risg, ac felly nid oedd yr holl weithgarwch diogelu gofynnol wedi'i ystyried neu ei gofnodi. Roedd hyn yn ganfyddiad hefyd yn yr adolygiad annibynnol o achos Bendall, sy'n cael ei drafod ymhellach isod.

| **Nid oedd y risg o niwed difrifol wedi'i hailasesu'n ddigonol, er bod ffactorau risg newydd neu gynyddol wedi dod i'r golwg** |
|---|
| **Enw:** Mr E. |
| **Trosedd fynegai**: Ymosod cyffredin, ymgais i ymosod ar weithiwr mewn gwasanaeth brys a meddu ar sylwedd dosbarth A. |
| **Trosedd bellach ddifrifol**: Llosgi bwriadol gyda'r bwriad i beryglu bywyd (roedd dioddefwr y drosedd bellach ddifrifol hefyd yn ddioddefwr y drosedd fynegai o ymosod cyffredin – ei bartner). |
| *Yn yr adroddiad cyn dedfrydu, aseswyd bod Mr E yn peri risg uchel o niwed difrifol i oedolyn hysbys, risg ganolig o niwed difrifol i blant a risg isel o niwed difrifol i staff a'r cyhoedd. Yn yr asesiad a gwblhawyd ar ôl dedfrydu gan yr un ymarferydd, roedd lefel y risg i'r cyhoedd a staff wedi'i chodi i'r lefel ganolig, ac roedd y cynllun dedfryd cychwynnol yn OASys yn dangos yr un lefelau.*<br>*Ni chwblhawyd rhagor o adolygiadau asesu risg yn ystod cyfnod yr adolygiad. Er hynny, mae'r adolygiad yn nodi pwyntiau lle y dylai adolygiad fod wedi'i gynnal, o ganlyniad i ddigwyddiadau a newidiadau mewn ymddygiad a oedd â chysylltiad hanfodol â'r risg o beri niwed difrifol i eraill.* |

| |
|---|
| *Mae'r rheolwr adolygu yn cynnig dyfarniadau clir drwy gydol yr adolygiad y dylai lefel y risg i ddioddefwr 1 fod wedi'i chodi i'r lefel uchel iawn a bod nifer o gyfleoedd wedi'u colli i ystyried a chyflwyno'r newid hwn.*<br>*Mae'r adolygiad hefyd yn nodi y dylai lefel y risg o niwed difrifol i blant fod wedi'i chodi i'r lefel uchel. Roedd yr asesiad sicrhau ansawdd o'r adolygiad TPD hefyd yn nodi y dylai'r risg i'r cyhoedd fod wedi'i hailasesu hefyd a'i chodi i lefel uchel am fod y ffactorau risg critigol sydd â chysylltiad hanfodol â risgiau i oedolyn hysbys wedi cael eu sbarduno.* |

Dangoswyd bod nifer o gyfleoedd wedi'u colli yn yr achos hwn i adolygu'r asesiad risg, a bod hyn wedi effeithio ar y dull o reoli'r achos. O ganlyniad i hyn, nid oedd y cynllun rheoli risg wedi'i ddiweddaru i ddangos y sefyllfa bresennol ac ystyried pwy oedd yn wynebu risg a sut byddai hyn yn cael ei reoli. Byddai asesiad o risg uwch o niwed difrifol i blant wedi arwain at gamau i ymgysylltu â gwasanaethau plant. Byddai wedi bod yn bosibl ystyried mathau eraill o weithgarwch diogelu er mwyn rheoli'r risg uchel iawn o beri niwed difrifol i bartner Mr E, er enghraifft, drwy fwy o waith monitro a chymorth drwy gynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC).

| **Roedd y rheolwr adolygu wedi cytuno â'r asesiad risg cyffredinol ond roedd yr arolygydd TPD a oedd yn cynnal y broses sicrhau ansawdd wedi asesu ei fod yn anghywir.** |
|---|
| **Enw:** Mr Z. |
| **Trosedd fynegai:** Ymosod ar yr heddlu. |
| **Trosedd bellach ddifrifol:** Llofruddiaeth. |
| *Elfen hanfodol yn yr adolygiad hwn yw'r dyfarniadau a wnaed droeon sy'n dangos bod y rheolwr adolygu wedi cytuno â'r asesiad o risg a oedd wedi'i wneud. Mae'r dyfarniadau hyn yn groes i'r dystiolaeth a ddarparwyd, sy'n dangos bod yr asesiad o lefel y risg o beri niwed difrifol gan Mr Z yn rhy isel o ran ei lefel a'i hystod. Testun pryder yw bod y dyfarniad ar un pwynt ynghylch lefel y risg a achoswyd i gyn-bartner Mr Z wedi'i wneud ar y sail nad oedd cofnodion o achosion o drais corfforol yn erbyn ei gyn-bartner ac nad yw'r dyfarniad yn cydnabod ei ymddygiad o ran cam-drin domestig na'i effaith ar ddioddefwyr.* |

Roedd yr arolygydd a asesodd sicrwydd ansawdd yr adolygiad hwn wedi anghytuno â'r dyfarniad ar lefel y risg o niwed difrifol a oedd yn sail i'r dull o reoli'r achos, a oedd wedi'i ddyfarnu'n gywir gan y rheolwr adolygu. Pan fydd hyn yn digwydd, gofynnir i'r rheolwr adolygu fynd ati i adolygu ei ddyfarniad. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â'i reolwr, sydd yn cydlofnodi'r adolygiad TPD. Bydd arolygwyr yn aml yn trafod y canfyddiadau hyn gyda'r rheolwr adolygu er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ailystyried a bod digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r sail resymegol dros yr asesiad risg.

### Pam roedd yr asesiad o risg yn rhy isel neu'n anghywir?

Lle mae adolygiadau TPD wedi edrych ar y rhesymau dros ddiffygion mewn ymarfer sy'n ymwneud ag asesu risg, mae'r prif themâu a ganlyn wedi'u nodi:

- swyddogion dibrofiad yn cwblhau asesiadau
- diffyg hyfforddiant, neu'r ffaith nad oes digon o hyfforddiant ar gael
- peidio â chwilio am wybodaeth o'r ffynonellau sydd ar gael, er enghraifft, ymholiadau am gam-drin domestig neu ddiogelu plant heb eu cwblhau

- peidio â seilio asesiadau ar yr holl wybodaeth sydd ar gael, fel nad yw gwybodaeth berthnasol bob amser yn cael ei hystyried neu ei defnyddio’n effeithiol i lunio’r asesiad risg
- derbyn gwybodaeth a pheidio â’i hystyried ymhellach neu ei gwirio, a hynny’n dangos diffyg chwilfrydedd proffesiynol
- peidio ag adolygu asesiadau risg pan fydd gwybodaeth newydd am risg yn dod i’r golwg
- llwythi gwaith gormodol sy’n gallu peri bod asesiadau’n cael eu cwblhau’n gyflym, yn hwyr neu gan ymarferydd arall nad yw mor gyfarwydd â’r achos. Mewn rhai achosion, ni chwblheir adolygiadau o asesiadau
- cyfleu darlun cyfyng o’r risg o niwed difrifol, er enghraifft gallai ymarferydd ganolbwyntio ar y ffactorau risg mwyaf perthnasol a pheidio ag ystyried materion ehangach fel nad yw’r asesiad yn un cyfannol ac nad yw’n ystyried yr holl ffactorau risg
- dim digon o weithio amlasiantaethol i gyfrannu i asesiadau risg.

**Rôl yr oruchwyliaeth gan reolwyr**

Canfyddiad allweddol arall mewn adolygiadau TPD yw bod diffyg goruchwyliaeth effeithiol dros achosion gan reolwyr, neu fod yr enghreifftiau o hynny’n brin. O ystyried y canfyddiadau a nodwyd uchod, dylai goruchwyliaeth gan reolwyr fod yn rhan hanfodol o’r broses o sicrhau bod asesiadau o’r risg o niwed difrifol yn rhai trwyadl, cyfannol a chywir, a’u bod yn cael eu trosi i gynlluniau rheoli risg ystyrlon. Mae hyn yn rhan o’r rôl ehangach o sicrhau bod rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth effeithiol ar bwyntiau perthnasol wrth reoli’r achos, a’u bod yn cynorthwyo’r staff y maent yn eu rheoli.

Mae gofyniad am gydlofnodi’r asesiadau OASys mewn achosion penodol, er enghraifft y rheini lle mae risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol, neu lle mae’r asesiad wedi’i gwblhau gan swyddog dan hyfforddiant neu aelod staff newydd gymhwyso. Fel arfer, yr uwch swyddog prawf yn y tîm sy’n rheoli’r achos fydd yn ei gydlofnodi. Pwrpas y cydlofnodi yw sicrhau bod yr asesiad yn ddigonol ac yn ddigon dibynadwy i fod yn sail i’r dull o reoli’r achos. Mae’n glir nad yw hyn yn digwydd bob tro yn unol â’r canllawiau perthnasol; felly, gellir cael bylchau ac elfennau anghywir ac mae asesiadau annigonol yn gallu aros yn eu lle, a hynny’n arwain at gynllun rheoli risg sy’n annigonol ar gyfer goruchwylio’r achos. Mae’r pryder hwn am ymarfer wedi’i adlewyrchu yn y canfyddiadau o’n harolygiadau craidd ar draws rhanbarthau prawf.

Mae’r adolygiadau TPD, yn ogystal â’n harolygiadau craidd a’r adroddiad thematig diweddar[14] ar rôl yr uwch swyddog prawf, wedi canfod mai’r rhesymau dros annigonolrwydd yr oruchwyliaeth gan reolwyr mewn rhai achosion yw:

- bod y trosolwg gan uwch swyddogion prawf yn rhy eang
- na ellir cynnal proses cydlofnodi drwyadl oherwydd pwysau’r llwyth gwaith
- nad yw uwch swyddogion prawf yn dilyn y canllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau OASys
- nad yw’r uwch swyddog prawf sy’n cydlofnodi yn un sy’n gyfarwydd â’r achos neu ei fod yn gwneud hynny yn lle uwch swyddog prawf arall
- bod asesiadau annigonol yn cael eu cydlofnodi i gyrraedd targedau perfformiad.

Gan fod HMPPS wedi cyhoeddi y bydd yn recriwtio 1,000 o staff ychwanegol[17] i reoli llwythi gwaith ychwanegol o ganlyniad i SDS40,[18] mae’n hollbwysig bod yr oruchwyliaeth a ddarperir

[17] Lord Chancellor sets out immediate action to defuse ticking prison ‘time-bomb’ - GOV.UK

[18] Mae SDS40, neu Ddedfryd Benodol Safonol 40, yn gynllun dros dro gan lywodraeth i ryddhau carcharorion yn gynnar er mwyn lleddfu’r gorlenwi mewn carchardai.

gan reolwyr yn ddigonol ac effeithiol. Bydd cynnydd yn nifer y staff y bydd angen darparu goruchwyliaeth drwyadl ar eu cyfer; felly, mae'n hollbwysig bod eu datblygiad a'u dysgu yn cael eu goruchwylio'n effeithiol, a'u bod yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen i ddysgu a datblygu.

**Asesiadau risg – y camau nesaf yn dilyn argymhellion mewn adolygiadau annibynnol**

Tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud ag ansawdd a chywirdeb asesiadau o'r risg o niwed difrifol mewn tri adolygiad annibynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Prawf EF. Roedd achosion Jordan McSweeney[19] a Damien Bendall[20] wedi amlygu pryderon ynghylch asesiadau o'r risg o niwed difrifol, a oedd wedi cael effaith sylweddol ar y dull o reoli'r ddau achos hyn gan y Gwasanaeth Prawf. Yn yr adolygiad o achos Joshua Jacques[21]**Error! B ookmark not defined.** a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar, roedd pryderon hefyd wedi'u codi mewn perthynas ag asesu'r risg o niwed difrifol a bydd hyn yn cael ei drafod yn fwy manwl yn ddiweddarach.

Roedd Jordan McSweeney wedi ymosod yn rhywiol ar Zara Aleena a'i llofruddio pan oedd yn cerdded adref yn Llundain ym Mehefin 2022. Roedd wedi cael ei ryddhau o'r ddalfa naw diwrnod yn gynharach ac roedd felly o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf pan gyflawnodd y troseddau pellach difrifol. Cafodd ei ddedfrydu i garchar am oes yn Rhagfyr 2022, gyda thariff o 38 mlynedd o leiaf. Cafodd hyn ei ostwng i 33 blynedd ar ôl apelio, ym mis Tachwedd 2023.

Y canfyddiad yn ein hadolygiad annibynnol oedd y dylai lefel y risg o niwed difrifol fod wedi cael ei chodi i'r lefel uchel yn Chwefror 2021, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael am ei hanes o drais, yn ogystal â'i droseddu meddiangar. Roedd gwybodaeth yn hysbys am y risgiau roedd yn eu hachosi yn y ddalfa, er enghraifft drwy feddu ar arfau ac ymddygiad treisgar a bygythiol. Yn ogystal â hyn, roedd wedi cario arfau yn y gymuned. Dylid bod wedi asesu bod y risg o beri niwed i'r cyhoedd, staff a charcharorion eraill yn uchel. Dylid hefyd fod wedi asesu bod y risg o niwed difrifol i oedolion hysbys ar lefel uchel, ar sail gwybodaeth am droseddau yn erbyn benyw hysbys a gafwyd yn 2021, a oedd wedi arwain yn ddiweddarach at wneud gorchymyn atal yn ei erbyn. Cafwyd cyfleoedd pellach hefyd i adolygu'r lefelau risg yn yr achos; fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am ei ymddygiad yn y ddalfa a'r gymuned wedi cael ei thrin mewn ffordd gyfannol.

Ni chwblhawyd asesiad OASys ar ôl rhoi dedfryd o garchar iddo yn Ebrill 2022. Oherwydd oedi wrth ddyrannu'r achos, nid oedd y swyddog prawf wedi gallu cwblhau asesiad OASys cyn ei ryddhau ym Mehefin 2022. Felly, roedd Mr McSweeney wedi cael ei ryddhau heb fod asesiad ffurfiol o risg wedi'i gwblhau ers Chwefror 2021. Cafwyd asesiad anghywir o lefel gyffredinol y risg o achosi niwed difrifol yn yr achos hwn, drwy asesu ei bod yn ganolig yn hytrach nag uchel. Roedd yn cael ei ystyried yn 'droseddwr meddiangar risg ganolig'. Pe byddai wedi cael asesiad cywir i ddangos ei fod yn peri risg uchel o niwed difrifol, mewn perthynas yn benodol â charcharorion eraill, staff, oedolion hysbys a'r cyhoedd, byddai wedi bod yn bosibl gwneud penderfyniadau gwahanol iawn am y cynllunio ar gyfer ei ryddhau, amodau'r drwydded, y cyfarwyddiadau adrodd, a'r camau i'w cymryd os oedd yn methu ag ymbresenoli ar ôl ei ryddhau gyda'r posibilrwydd o weithredu'n fwy buan. Byddai hefyd wedi gallu bod yn gymwys i'r reoli drwy MAPPA, ac am leoliad mewn mangre a gymeradwywyd, a fyddai wedi darparu ar gyfer mwy o fonitro ar ei risg yn y gymuned yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer adsefydlu.

Ym Medi 2021, yn eu cartref yn Swydd Derby, roedd Damien Bendall wedi llofruddio Terri Harris (35 oed), ei phlant Lacey Bennett (11 oed) a John Paul Bennett (13 oed), a Connie Gent (11 oed) a oedd yn ffrind i Lacey ac yn aros yng nghartref y teulu dros nos. Roedd hefyd wedi treisio Lacey. Yn Rhagfyr 2022, cafodd ei ddedfrydu i dreulio ei oes gyfan yn y carchar. Ar adeg

[19] Independent serious further offence review of Jordan McSweeney
[20] Independent serious further offence review of Damien Bendall
[21] Independent serious further offence review of Joshua Jacques

cyflawni'r troseddau hyn, roedd yn destun gorchymyn dedfryd ohiriedig ac roedd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

Yn yr achos hwn, roedd yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn rhy isel o adeg cwblhau'r adroddiad cyn dedfrydu ar gyfer y llys. Mae'r adolygiad yn nodi y byddai wedi gallu cael ei ddedfrydu i'r ddalfa ar unwaith, pe bai asesiad cywir wedi'i gyflwyno, yn hytrach na gwneud gorchymyn dedfryd ohiriedig. Gosodwyd cyrffyw i orfodi Bendall i breswylio yng nghyfeiriad Terri Harris, heb wneud ymholiadau perthnasol am unrhyw bryderon o ran cam-drin domestig neu ofyn am ei barn hi am ei gael yn preswylio yno. Felly roedd yr argymhelliad hwn yn gwbl amhriodol.

Fe'i haseswyd wedyn yn un a oedd yn peri risg ganolig o niwed difrifol pan ddylid bod wedi nodi risg uchel. Pe byddai wedi cael ei asesu'n un a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol, byddai ei achos wedi'i ddyrannu i ymarferydd mwy profiadol. Cafwyd methiannau wedyn gan reolwyr goruchwylio ac ymarferwyr newydd i asesu'r achos yn ddigonol a newid yr asesiad anghywir cychwynnol o 'risg ganolig o niwed difrifol' i 'risg uchel o niwed difrifol'. Pe byddai wedi'i asesu'n un a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol, byddai disgwyl i hynny fod yn sail i'r dull o reoli'r achos. Er enghraifft, byddai wedi gallu arwain at gynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb wythnosol gorfodol a gwell cyfathrebu ag asiantaethau partneriaid. Ni fyddid wedi dibynnu ar haeriadau heb dystiolaeth ar eu cyfer ac ni fyddent wedi'u hailadrodd mewn asesiadau dilynol.

### Argymhellion o adolygiadau annibynnol

Roedd yr adolygiad annibynnol o achos Bendall wedi gwneud 17 o argymhellion, a phob un ohonynt wedi'u derbyn gan HMPPS. Roedd deg o'r rhain yn ymwneud yn benodol ag asesu a rheoli gwahanol elfennau o'r risg o niwed difrifol, yn cynnwys cam-drin domestig a diogelu plant. Mae HMPPS wedi darparu diweddariad o'i gynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar 09 Mai 2024.

Mae bellach yn orfodol i ymholiadau am gam-drin domestig gael eu gwneud ym mhob achos lle cynigir gosod cyrffyw gyda monitro electronig. Rhoddwyd adnoddau ychwanegol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn. Darparwyd diweddariadau gan HMPPS ynghylch sut mae'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio.

Mewn ymateb i ymholiadau am ddiogelu plant, mae HMPPS wedi datgan: 'Mae Fframwaith Polisi Diogelu Plant HMPPS yn ei gwneud yn orfodol i ymholiadau gael eu gwneud ynghylch diogelu plant ar gyfer yr holl adroddiadau lle mae'r person sy'n cael ei ddedfrydu yn byw gyda phlentyn, yn gyfrifol am blentyn, yn cael mynediad at blentyn neu'n debygol o gael effaith negyddol ar lesiant neu ddiogelwch plentyn'. O ran y cynnydd ar ymholiadau, mae wedi datgan bod y gweithgarwch a gofnodwyd bob mis mewn perthynas ag ymholiadau diogelu wedi mwy na dyblu rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023, ac mae data diweddar yn dangos bod hyn yn parhau i wella.

Gyda golwg ar rannu gwybodaeth, mae HMPPS yn dweud ei fod wedi cydweithio â'r Adran Addysg i ddiweddaru adrannau HMPPS yn y canllawiau statudol newydd *Working Together to Safeguard Children*, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2023. Mae'r diweddariadau'n darparu eglurder i weithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a sefydliadau am rôl HMPPS a sut y gall gyfrannu at gadw plant a theuluoedd yn ddiogel. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i gryfhau'r trefniadau rhwng unedau cyflawni prawf a gwasanaethau plant awdurdodau lleol.

Lansiwyd offeryn archwilio achosion llys yn Ebrill 2023 a chaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n gyson â'r disgwyliadau cyfredol am ansawdd ymarfer a'r fethodoleg graidd.

Yn dilyn cwblhau'r adolygiad o achos Bendall, fe'i gwnaed yn orfodol i ymgynghori â'r rheini roedd eu cyfeiriad yn cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau monitro electronig. Mae HMPPS wedi datgan na fydd y gwasanaeth digidol newydd ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn caniatáu i'r ymarferydd fwrw ymlaen â'r achos oni bai fod y rheolwr troseddwyr yn y gymuned wedi rhoi gwybod ei fod wedi cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Mae rhanbarthau prawf yn darparu diweddariadau ar weithredu a chydymffurfio â fframwaith diogelu plant HMPPS. Maent hefyd wedi adrodd ar ymgyrchoedd fel 'Think Child', sy'n ceisio hybu ymwybyddiaeth o rôl yr ymarferydd prawf wrth gynnal diogelwch a llesiant plant.

Gwnaed newidiadau yn OASys yn dilyn y cynllun gweithredu gwreiddiol. Y nod oedd darparu gwell strwythur i gymell ymarferwyr i ystyried natur ymddygiad yr unigolyn a'i heffaith bosibl ar y plant y daw neu y gallai ddod i gysylltiad â nhw.

Roedd yr adolygiad o achos McSweeney wedi gwneud naw argymhelliad, a derbyniwyd pob un ohonynt gan HMPPS. Mae HMPPS wedi darparu diweddariad o'i gynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2024.[22]

Cafwyd adolygiad o'r canllawiau ar asesu'r risg o niwed difrifol. Nid oedd dim yn y canllawiau eu hunain a oedd yn peri pryder. Fodd bynnag, fe nodwyd materion a oedd yn codi mewn perthynas â'u gweithredu, yn cynnwys rhai'n ymwneud â hyfforddiant ac offer TG. Ymhlith y camau gweithredu dilynol, roedd rhai'n ymwneud â diweddaru'r pecyn gweithgareddau risg o niwed difrifol i helpu rheolwyr i gynnwys y canllawiau risg o niwed difrifol mewn ymarfer mewn fformat hawdd ei ddeall; newidiadau yn yr hyfforddiant risg o niwed difrifol i ymarferwyr newydd a phrofiadol; a darparu gweithdai wedi'u targedu ar gyfer uwch swyddogion prawf mewn llysoedd.

Mae HMPPS wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer prosiect i ddatblygu dull newydd o asesu a chynllunio ar gyfer risgiau, anghenion a chryfderau. Nod y prosiect yw newid y dull o ymgymryd ag asesu, rheoli risg a chynllunio dedfrydau, fel y bydd yn well o ran darparu asesiadau cywir a rheoli dedfrydau, yn seiliedig ar gydweithio a chryfderau, ac yn cael ei gynnal a'i adlewyrchu mewn gwasanaeth digidol newydd effeithiol. Roedd yr offeryn hwn, a elwir yn ARNS (assessment of risks, needs and strengths), wedi'i roi ar brawf gyda chohort bach o staff yn Awst 2024. Wrth gyflwyno newidiadau pellach, bydd mwy o grwpiau staff yn cael eu cynnwys. Disgwylir y bydd yr asesiad newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr holl staff yn 2026.

Mae HMPPS yn parhau i gynnal archwiliadau o achosion drwy offer rhanbarthol ar gyfer archwilio achosion a gweithgarwch archwilio arall drwy'r grŵp perfformiad, sicrwydd a risg.

Mae HMPPS wedi gwneud newidiadau yn OASys er mwyn cael gwell gwybodaeth am droseddau a gyflawnwyd yn y ddalfa ac am orchmynion sifil ac ategol. Lle mae pryderon sylweddol am gam-drin domestig neu ddiogelu, bydd asesiadau risg yn cael eu hanfon yn awtomatig i'w cydlofnodi gan uwch swyddog prawf. Mae HMPPS wedi datgan bod y dystiolaeth gyntaf am effaith y newidiadau hyn wedi dangos eu bod wedi helpu staff i gynnwys gwybodaeth am orchmynion sifil ac ymddygiad yn y ddalfa yn eu hasesiadau risg.

Mae ffurflen porthgadw ar gyfer adroddiadau cyn dedfrydu wedi cael ei chyflwyno oddi ar Ionawr 2023. Mae HMPPS wedi nodi bod y gydymffurfiaeth â hyn mewn rhanbarthau prawf yn parhau i gynyddu.

Dyfeisiwyd ffurflen rhannu gwybodaeth i'w llenwi gan reolwyr troseddwyr mewn carchardai. Mae HMPPS wedi datgan mai ei phwrpas yw 'sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei throsglwyddo i'r gymuned ar gyfer asesu risg a rheoli risg yn barhaus; mae hyn yn cynnwys ymddygiad yn y carchar e.e., troseddau newydd, ymosod ar staff neu wybodaeth am Orchmynion Sifil'.

Mae grŵp amddiffyn y cyhoedd yn HMPPS wedi diweddaru'r canllawiau ar risg o niwed er mwyn ymdrin yn benodol â'r angen i ystyried pob math o ymddygiad ac nid euogfarnau troseddol yn unig wrth asesu'r risg o niwed difrifol a geir, ac i egluro'r gwahanol drothwyon ar gyfer gorchymyn sifil ac euogfarn droseddol.

Mae HMPPS wedi cwblhau adolygiad o'r model gweithredu ar gyfer rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, ac adolygiad o'r cyfraniad i MAPPA drwy ddarparu cudd-wybodaeth gan

[22] Jordan McSweeney Independent Review Action Plan - GOV.UK

garchardai. Fodd bynnag, nodwn nad oedd McSweeney yn cael ei reoli o dan MAPPA. Felly, rydym yn croesawu'r mentrau eraill i ystyried rhannu gwybodaeth nad yw'n dod o fewn cylch gwaith MAPPA. Mae hyn yn cynnwys fframwaith polisi diwygiedig i ddarparu gwell arweiniad i dimau cudd-wybodaeth mewn carchardai a chyhoeddir dogfen ar ddulliau a sgiliau i gynorthwyo defnyddwyr 'pen blaen'.

Parhawn i gydgysylltu â HMPPS a byddwn yn croesawu diweddariadau ar y cynnydd ar gyflawni'r camau hyn. Rydym wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cynnar am weithredu'r offeryn newydd ar gyfer asesu risg ARNS a byddwn yn parhau i gael diweddariadau rheolaidd ar ei weithrediad a'i gynnydd.

### Crynodeb

Cafwyd bod yr asesiad o'r risg o niwed difrifol yn rhy isel neu'n anghywir yn y rhan fwyaf o'r adolygiadau TPD a aseswyd am sicrwydd ansawdd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle'r oedd yr asesiad o'r risg gyffredinol yn anghywir, a hefyd lle'r oedd yr asesiad o'r risg i grwpiau penodol yn rhy isel a bod pobl sy'n wynebu risg heb gael eu hystyried yn unigol mewn asesiadau risg. Rydym wedi nodi pryderon tebyg yn ein harolygiadau craidd. Dwy enghraifft o'r rhain yw:

- Yn yr arolygiad o PDU Dwyrain Caint,[23] yn rhanbarth Caint Surrey Sussex, ym Mawrth 2024, cafwyd bod gwybodaeth am gam-drin domestig wedi'i defnyddio yn yr asesiadau mewn dim ond 15 o'r 44 o achosion perthnasol, a bod gwybodaeth diogelu plant wedi'i defnyddio mewn dim ond 13 o'r 46 o achosion perthnasol. Roedd hyn wedi cyfrannu at ddyfarniadau anghywir mewn perthynas â'r tebygolrwydd o niwed a'i agosrwydd.
- Yn yr arolygiad o PDU Swydd Hertford,[24] yn rhanbarth Dwyrain Lloegr, ym mis Gorffennaf 2024, gwelsom nad oedd yr asesiad o'r risg o niwed yn enwi ac yn dadansoddi'n glir yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'r risg o niwed. Dim ond mewn 16 o blith 54 o achosion roedd gwybodaeth am gam-drin domestig wedi'i rhannu'n ddigonol â'r heddlu, a dim ond 19 o blith 54 a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am ddiogelu plant. Lle'r oedd ymholiadau wedi cael eu gwneud ond bylchau mewn gwybodaeth yn yr ymatebion gan asiantaethau eraill heb gael eu llenwi, ni chymerwyd camau wedyn i lenwi'r bylchau hynny fel mater o drefn. O ganlyniad i hyn, mewn 11 o blith 54 o achosion a arolygwyd gennym, roedd lefel y risg o niwed yn anghywir.

Felly, mae angen o hyd i wella'r elfen hanfodol hon mewn ymarfer prawf. Cafwyd gweithgarwch sylweddol mewn perthynas ag asesiadau risg yn dilyn yr argymhellion yn ein hadolygiadau annibynnol o achosion Damien Bendall a Jordan McSweeney. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn er mwyn canfod effaith y newidiadau hyn drwy'r gwaith ar sicrhau ansawdd adolygiadau TPD a thrwy'r canfyddiadau o'n rhaglen o arolygiadau craidd.

[23] An inspection of probation services in East Kent PDU
[24] An inspection of probation services in Hertfordshire PDU

## Adolygiad annibynnol o achos Joshua Jacques

Yn Ionawr 2024 cyhoeddwyd ein hadolygiad annibynnol o achos Joshua Jacques[2].

Yn Ebrill 2022, cyhuddwyd Jacques o lofruddio pedwar aelod o deulu: Denton Burke, Dolet Hill, Tanysha Ofori-Akuffo, a Samantha Drummonds. Ar 21 Rhagfyr 2023, fe'i cafwyd yn euog o lofruddiaeth yn dilyn treial. Cafodd ei ddedfrydu ar 01 Mawrth 2024 i oes o garchar, gyda chyfnod lleiaf o 45 mlynedd a 301 o ddiwrnodau.

Roedd Jacques o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf pan gafodd ei arestio am y troseddau hyn, ac yntau wedi'i ryddhau o'r carchar ar drwydded ym mis Tachwedd 2021. Yn hytrach na bod y gwasanaeth prawf yn cwblhau adolygiad TPD yn yr achos hwn, fe ofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i'r Arolygiaeth Prawf gwblhau adolygiad annibynnol o'r ffordd roedd y Gwasanaeth Prawf wedi rheoli achos Jacques.

Ym mis Tachwedd 2019, roedd Jacques wedi cael ei ddedfrydu i'r carchar am 51 mis, am y troseddau o gyflenwi cyffuriau Dosbarth A (crac cocên a heroin) a meddu ar ganabis Dosbarth B. Rhoddwyd gorchymyn ymddygiad troseddol hefyd.[25] Fe'i rhyddhawyd o'r ddalfa ar 11 Tachwedd 2021 i breswylio mewn mangre a gymeradwywyd yn y lle cyntaf. Cyfeiriwyd ei achos i MAPPA o dan gategori 3 ac roedd un cyfarfod wedi'i gynnal cyn ei ryddhau.

Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn wedi'u hamlinellu isod, ac maent yn adlewyrchu rhai o'r meysydd y mae'r adroddiad hwn wedi'u nodi eisoes yn themâu allweddol mewn adolygiadau TPD.

### Asesu'r risg o niwed difrifol

Cafwyd bod diffygion yn yr asesiadau risg a gwblhawyd mewn perthynas â Jacques.

Er bod yr asesiad bod y lefel risg gyffredinol yn uchel yn un cywir, roedd yr adolygiad wedi canfod ei fod wedi methu â nodi'r holl ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r risg o niwed difrifol, fel ei iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'i lety ar y pryd. Aseswyd bod lefel risg isel yn y meysydd eraill, a barnwyd bod y lefel hon yn rhy isel ar sail y wybodaeth a oedd ar gael. Fel y nodwyd yn barod, mae anghywirdeb mewn asesiadau o'r risg o niwed difrifol yn thema gyffredin mewn adolygiadau TPD eraill.

Dechreuwyd ar asesiad OASys cychwynnol pan gafodd ei ryddhau. Fodd bynnag, nid oedd pob agwedd o'r asesiad wedi'i chwblhau ac roedd yn dal yn anghyflawn yn ystod y cyfnod o dan oruchwyliaeth. O ganlyniad i fethu â chwblhau asesiad OASys ar adeg ei ryddhau, nid oedd asesiad o'r risg o niwed difrifol na chynllun i reoli risg yn y gymuned i ddangos sut i reoli'r risg yn ddiogel tra oedd Jacques ar drwydded. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg i'r un yn achos McSweeney, sydd wedi'i nodi uchod, lle nad oedd asesiad risg cyfredol a chywir i ddangos sut i reoli'r achos. Ar ben hynny, nid oedd amcanion mewn cynllun dedfryd i ategu a chyfrannu i'r apwyntiadau goruchwyliaeth.

Ni chafwyd adolygiadau pellach ar ôl y cyfarfodydd MAPPA a gynhaliwyd ar adeg ei ryddhau, nac mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a digwyddiadau arwyddocaol. Drwy gwblhau adolygiad, byddai'r ymarferydd prawf wedi gallu ystyried arwyddocâd gwybodaeth newydd, ac adolygu'r cynllun dedfryd a'r cynllun rheoli risg yn unol â hynny, er mwyn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol wedi'u gwneud i amddiffyn y cyhoedd.

Roedd peidio ag adolygu asesiadau OASys yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol neu gael gwybodaeth newydd yn thema gyffredin hefyd yn yr adolygiadau TPD a aseswyd gennym am sicrwydd ansawdd.

---

[25] Mae gorchymyn ymddygiad troseddol yn orchymyn llys y gellir ei roi i'r rheini a geir yn euog o drosedd er mwyn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol a chyson.

Cyn y drosedd bellach ddifrifol, ar 02 Mawrth 2022 roedd Jacques wedi ymddangos yn y llys am droseddau newydd. Nid oedd yr asesiad risg wedi'i ddiweddaru'n ddigonol ar yr adeg hon i ddarparu asesiad cyfannol o'r holl ffactorau risg hysbys. Roedd yr angen am asesiad risg cyfannol yn thema allweddol hefyd a nodwyd yn yr adolygiad annibynnol o achos Jordan McSweeney, sydd wedi'i amlinellu uchod.

Er bod cyfarfodydd MAPPA wedi ystyried lefel y risg o niwed difrifol a achoswyd gan Jacques, nid oedd hyn yn dileu'r angen am gwblhau asesiad OASys. Nid oedd tystiolaeth ychwaith o fathau eraill o asesu a chynllunio yng nghofnodion yr achos, yn niffyg asesiad ffurfiol. Felly, nid oedd tystiolaeth bod dealltwriaeth clir o'r ffordd i reoli'r risgiau a wynebwyd.

### Chwilfrydedd proffesiynol a thuedd optimistiaeth

Roedd yr ymarferwyr a oedd yn rheoli achos Jacques wedi canolbwyntio ar gamau i ddiwallu ei anghenion, fel yr angen am lety a chyflogaeth. Cawsom fod hyn wedi digwydd ar draul ymgymryd â gwaith a oedd yn canolbwyntio ar y drosedd a rheoli'r risg o niwed difrifol. Er enghraifft, nid oedd tystiolaeth o gyflawni ymyriadau penodol a oedd yn ymwneud ag ymddygiad troseddol. Roedd ymarferwyr prawf wedi cymryd golwg goroptimistaidd ar ymddygiad Jacques tra oedd ar drwydded ac nid oeddent yn llwyr ddeall y disgwyliadau iddynt fod yn rhagweithiol ac arfer chwilfrydedd proffesiynol. O ganlyniad i hyn, nid oeddent wedi edrych yn ddigon manwl ar faterion a gododd mewn cysylltiad â'r risg o niwed difrifol yn ei achos ef, er enghraifft y ffaith ei fod wedi prynu cerbyd, ei ymddygiad problemus yn ei lety a'r methiant i hysbysu'r heddlu am dorri amodau'r gorchymyn ymddygiad troseddol am yr ail dro. Roedd diffyg profiad ymysg grŵp staff yr ymarferwyr prawf yn y PDU, ac roedd diffyg goruchwyliaeth gadarn gan reolwyr wedi cyfrannu ymhellach at hyn. Lle mae profiad y gweithlu'n gyfyngedig, bydd arnynt angen cael arweiniad gan y rheini sydd â gwybodaeth fwy helaeth drwy ddarparu cymorth a goruchwyliaeth i'w helpu i ddatblygu.

Roedd diffyg profiad, a dyrannu'r achos yn amhriodol, yn elfennau amlwg hefyd yn yr adolygiadau o achosion Bendall a McSweeney ac fe welir hyn yn aml mewn adolygiadau TPD. Mewn sampl o 39 o achosion lle cafwyd adolygiad TPD, roedd arolygwyr o'r farn bod 41 y cant ohonynt wedi cael eu dyrannu'n anghywir. Mae hyn yn dangos bod y mater hwn yn un arwyddocaol a bod angen rhoi sylw iddo.

### Gorfodi

Roedd yr ymarfer gorfodi yn yr achos hwn yn anghyson, ac enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio wedi'u hystyried ar wahân i'w gilydd yn hytrach na chyda'i gilydd. Ni cheisiwyd cyfleoedd i uwchgyfeirio materion ac ymgynghori â phennaeth yr uned gyflawni. Methwyd â gweithredu ar asesiad cyn rhyddhau lle nodwyd y byddai angen cymryd camau gorfodi buan mewn perthynas â'r gorchymyn ymddygiad troseddol a'r drwydded er mwyn rheoli'r risg o niwed difrifol roedd Jacques yn ei hachosi. Ni ddilynwyd canllawiau ar orfodi a ddyroddwyd yn Hydref 2021. Teimlai ein harolygwyr fod lle i amddiffyn y penderfyniad i beidio â galw Jacques yn ôl yn dilyn ei arestio am droseddau pellach. Fodd bynnag, wrth wneud y penderfyniad, dylai'r uwch swyddog prawf fod wedi gofyn am oruchwyliaeth gan uwch reolwr, ac roedd y methiant i wneud hynny'n groes i'r ymarfer disgwyliedig. Nid oedd yr ymarfer gorfodi yn yr achos hwn wedi cynnwys camau i ddadansoddi ymddygiad Jacques, na chamau i ystyried a oedd angen mesurau cefnogol neu gyfyngol ychwanegol, os nad oedd i gael ei alw'n ôl, i reoli ei drwydded.

Mae hon yn dystiolaeth ychwanegol nad oedd y risg o niwed difrifol ac anghenion yr achos wedi cael eu hystyried mewn ffordd gyfannol. Gwelsom dystiolaeth o ymarfer gorfodi annigonol mewn nifer o adolygiadau TPD.

### Adnoddau a llwythi gwaith

Roedd y PDU wedi bod yn gweithredu ar statws 'gwyrdd' o dan y Fframwaith Blaenoriaethu Prawf cenedlaethol ond roedd nifer o swyddi gwag, yn enwedig ar raddau swyddogion prawf a

swyddogion gwasanaethau prawf. Roedd nifer o staff yn y PDU ar ddechrau eu gyrfa ac ychydig o staff profiadol a oedd ar gael. Nid oedd yr ymarferwyr prawf yn yr achos hwn yn meddu ar y profiad sydd ei angen i ymateb yn ddigonol i gymhlethdod yr achos a'r ymddygiadau a welwyd. Yn ogystal â hyn, roedd maint a chyflymder y gwaith wedi effeithio ar ansawdd y gwaith a gyflawnwyd yn yr achos hwn. Ni ddilynwyd fframwaith haenu HMPPS[26] na'r canllawiau ar ddyrannu achosion, a dylid bod wedi dyrannu achos Jacques i ymarferydd prawf mwy profiadol.

Yn yr achos hwn, roedd yr ymarferydd prawf yn ei gyfnod swyddog prawf newydd gymhwyso (NQO). Wrth ddyrannu'r achos, dylai'r uwch swyddog prawf fod wedi cael sicrwydd bod y swyddog prawf yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau a phrofiad roedd eu angen i reoli'r achos. Roedd achos Jacques wedi codi i haen uwch yn dilyn y cyfarfod MAPPA cychwynnol a dylai hyn fod wedi arwain at ailddyrannu'r achos yn unol â'r ymarfer disgwyliedig ar gyfer swyddogion prawf newydd gymhwyso.

Mae staffio, adnoddau a llwythi gwaith yn themâu cyffredin sydd wedi'u nodi'n ffactorau sy'n egluro'r rhesymau dros ddiffygion mewn ymarfer ac oedi wrth gwblhau tasgau. Roedd y rhain yn themâu yn yr adolygiadau o achosion Bendall a McSweeney. Parheir i gymryd camau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â recriwtio.

### Goruchwyliaeth gan reolwyr

Roedd safon yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn annigonol. Roedd staff wedi dweud bod diffyg hyder yn y penderfyniadau a wneir gan eu rheolwr llinell a oedd yn cyfrannu at amharodrwydd i ofyn am ragor o oruchwyliaeth reoli. Pan ofynnwyd am oruchwyliaeth reoli, byddai penderfyniadau a wnaed gan yr ymarferwyr prawf yn cael eu cymeradwyo fel arfer heb y drafodaeth na'r craffu sydd eu hangen i sicrhau bod y camau mwyaf priodol yn cael eu cymryd. Collwyd cyfleoedd hefyd i uwchgyfeirio materion i sylw'r pennaeth gwasanaeth. Yn yr un modd â'r canfyddiadau o raglen arolygu leol gyffredinol yr Arolygiaeth, cafwyd bod llwyth gwaith a chyfrifoldebau rheolwyr llinell yn y PDU hwn yn peri pryder. Roedd uwch swyddogion prawf yn rheoli timau mawr ac roedd disgwyl iddynt ddarparu cymorth a goruchwyliaeth i'w staff a delio â materion adnoddau dynol, yn ogystal â goruchwylio a chraffu ar lwyth achosion pob ymarferydd prawf. Mae gan uwch swyddogion prawf gyfrifoldebau ychwanegol fel arweinwyr hefyd, fel MAPPA, sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl i'r safonau disgwyliedig. Roedd arolygwyr hefyd wedi gweld nad oedd prosesau digonol ar waith i reoli absenoldeb ymysg staff a chynorthwyo staff a oedd yn gweithio ar achosion yn absenoldeb aelodau staff eraill. O ganlyniad i hyn, nid oedd perchnogaeth glir ar yr achos hwn na nifer o achosion eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn thema hefyd yn yr adolygiadau o achosion Bendall a McSweeney ac mae'n thema gyffredin yn ein gwaith ar TPD, fel y nodwyd uchod.

### MAPPA

Ar sail ei drosedd fynegai (y set ddiweddaraf o euogfarnau troseddol), nid oedd achos Jacques yn gymwys i'w gyfeirio'n awtomatig i'w reoli o dan MAPPA[9]. Roedd yn arfer da iddo gael ei atgyfeirio i MAPPA fel achos Lefel 2, categori 3. Er hynny, ni welsom ddigon o dystiolaeth i ddangos bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y dull o reoli'r achos. Roedd yr atgyfeiriad i MAPPA ar gyfer Jacques wedi'i wneud yn hwyr, gan ei fod wedi'i gwblhau dim ond un mis cyn ei ryddhau. Dylid bod wedi gwneud hyn chwe mis cyn ei ryddhau. Er bod yr achos wedi'i drafod yn brydlon, roedd yr oedi cychwynnol cyn atgyfeirio yn golygu mai ychydig o amser a oedd gan y panel MAPPA i gyfrannu'n effeithiol at y cynllunio cyn rhyddhau. Roedd amodau'r drwydded eisoes wedi'u gosod gyda'r carchar, heb gyfraniad gan y panel MAPPA. Nid oedd y cofnodion o'r

[26] Haenu yw'r dull o ddyrannu achosion prawf ar sail nifer o ffactorau, yn cynnwys y risg o niwed difrifol, y tebygolrwydd o aildroseddu a lefel yr angen.

pedwar cyfarfod MAPPA a gynhaliwyd yn ddigonol o ran eu safon. Ychydig o dystiolaeth a oedd ynddynt fod asiantaethau partneriaid wedi cymryd rhan wrth helpu i reoli'r risg o niwed difrifol roedd yn ei hachosi. Collwyd cyfleoedd i bennu camau gweithredu ystyrlon mewn ymateb i wybodaeth newydd a gafwyd, ac roedd diffyg goruchwyliaeth dros gamau a oedd heb eu cymryd. Tynnwyd achos Jacques oddi ar y gofrestr ar gyfer goruchwyliaeth drwy MAPPA heb ddarparu sail resymegol ddigonol, tra oedd dau gam gweithredu a oedd eisoes wedi'u cario ymlaen yn dal i aros am eu cyflawni.

Rydym yn gweld darlun cymysg o ran ymarfer MAPPA mewn adolygiadau TPD. Rydym wedi annog rheolwyr adolygu i ystyried a fyddai atgyfeirio i MAPPA o dan gategori 3 wedi bod yn gymwys, a beth fyddai goruchwylio drwy MAPPA wedi cyfrannu at y gwaith o reoli'r achos.

### Mangreoedd a gymeradwywyd

Cafodd Jacques ei ryddhau o'r ddalfa i breswylio mewn mangre a gymeradwywyd.[27] Roedd hyn yn gyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at reoli'r risg o newid difrifol roedd Jacques yn ei hachosi. Roedd staff y fangre a gymeradwywyd wedi cynnal sesiynau gwaith allweddol a oedd yn canolbwyntio ar faterion priodol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau strwythuredig ar anghenion Jacques ar y pryd ac roeddent yn rhoi sylw i faterion a oedd o gymorth i'w ailsefydlu yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oedd staff y fangre a gymeradwywyd wedi arfer chwilfrydedd proffesiynol yn ystod eu rhyngweithio â Jacques. Nid oes tystiolaeth i ddangos eu bod wedi edrych ar ei ymddygiad a'i symudiadau: byddai hyn wedi helpu'r ymarferydd prawf i ddeall sut roedd Jacques yn treulio ei amser y tu allan i'r fangre a gymeradwywyd. Dylai staff mangreoedd a gymeradwywyd fod yn cyflawni rôl bwysig drwy ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i risgiau i'r ymarferydd prawf a chyfrannu at reoli'r risg yn effeithiol. Mae'n hanfodol eu bod yn deall y risg o niwed difrifol a welir, eu bod yn cymryd rhan wrth gyflawni'r cynllun rheoli risg a'u bod yn rhan o gyfarfodydd MAPPA. Nid oedd cynrychiolydd o'r fangre a gymeradwywyd wedi gallu cymryd rhan yn y cynllunio cyn rhyddhau am fod yr atgyfeiriad wedi'i ohirio ac nid oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd MAPPA a gynhaliwyd wedyn. Roedd hyn wedi cael effaith ar y cynllunio cyn rhyddhau, y cyfnewid ar wybodaeth a'r gallu i reoli risg yn effeithiol yn yr achos hwn.

Rydym wedi gweld darlun cymysg yn yr adolygiadau TPD o'r modd y mae mangreoedd a gymeradwywyd yn rheoli achosion. Er i ni weld enghreifftiau o gydgysylltu effeithiol rhwng staff mangreoedd a gymeradwywyd a rheolwyr troseddwyr, gellir cael bylchau lle nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddigonol neu lle nad yw'r troseddwr yn cael ei fonitro'n effeithiol.

### Iechyd meddwl

Roedd gan Jacques hanes o iechyd meddwl cymhleth ac wedi cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl o'r blaen yn 2018. Rhoddodd wybod fod teimladau o orbryder a pharanoia yn rhai normal iddo. Cyn ei ryddhau, dywedwyd bod iechyd meddwl Jacques yn sefydlog, a nododd ymarferwyr prawf nad oedd arwyddion amlwg o ddirywiad mewn iechyd meddwl ar adeg ei ryddhau. Fodd bynnag, dywedwyd ei fod yn ymgyflwyno mewn cyflwr 'isel' weithiau, a hynny'n cael ei briodoli i ymdeimlad o ddiflastod a'r angen am gael strwythur yn y gymuned. Rai diwrnodau cyn y drosedd bellach ddifrifol, dywedwyd bod Jacques yn siaradus a'i fod yn crwydro oddi ar y testun yn ei sgyrsiau gyda staff prawf.

---

[27] Mae mangreoedd a gymeradwywyd yn cynnig lefel uwch o amddiffyniad i'r cyhoedd yn y gymuned ac fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer y rheini yr aseswyd eu bod yn peri lefel uchel neu uchel iawn o niwed difrifol.

Ni fanteisiwyd ar gyfleoedd i ystyried ei iechyd meddwl wedi iddo ddatgelu bod dirywiad ynddo pan gyfwelwyd ef am y troseddau pellach a gyflawnwyd tra oedd ar drwydded. Roedd ymarferwyr prawf yn ymwybodol o hanes iechyd meddwl Jacques a'i fod wedi ymddwyn yn dreisgar yn y carchar yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd meddwl, ond nid oedd ganddynt wybodaeth fanwl am hyn. Roedd Jacques ei hun wedi dweud bod ymosodedd a ddigwyddai ar hap yn gallu bod yn arwydd bod ei iechyd meddwl yn dirywio. Fodd bynnag, ni nodwyd bod hyn yn ffactor a oedd yn gysylltiedig â'r risg o niwed difrifol mewn asesiadau OASys.

Nid oedd gwybodaeth am ei iechyd meddwl wedi cael ei rhannu'n effeithiol rhwng y carchar a'r ymarferydd cyffredinol.

Ar ben hynny, nid oedd y gydberthynas rhwng y parhad yn y defnydd o sylweddau anghyfreithlon gan Jacques a'i iechyd meddwl wedi cael ei hystyried yn ddigonol nac wedi ennyn ymateb. Dywedodd ymarferwyr prawf fod bwlch o ran y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo'r rheini sydd ag iechyd meddwl gwael, yn enwedig os oedd pryderon am gamddefnydd o sylweddau hefyd. Cafodd arolygwyr fod staff yn teimlo nad oeddent mewn lle da i allu deall ac ymateb i bryderon am iechyd meddwl, a bod yr hyfforddiant a chymorth a oedd ar gael yn gyfyngedig.

Cafwyd bod darlun cymysg o ran y rheoli ar iechyd meddwl mewn adolygiadau TPD. Mewn rhai achosion, mae'n glir bod hyn yn cael sylw da, a bod gwasanaethau eraill wedi cymryd rhan a chyfathrebu wedi digwydd yn rheolaidd. Er hynny, mewn nifer o achosion mae'r ymatebion wrth reoli iechyd meddwl yn gyfyngedig ac yn annigonol yn aml.

### Camddefnyddio sylweddau

Roedd Jacques wedi defnyddio canabis er yn blentyn a dywedwyd nad oedd ganddo fewnwelediad i'r effeithiau niweidiol o'i gamddefnydd o sylweddau. Mae cofnodion prawf ac asesiad gan seiciatrydd yn nodi bod cysylltiad rhwng y camddefnydd o sylweddau gan Jacques a'i iechyd meddwl, a bod y cyfnod pan oedd Jacques wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2018 wedi dilyn y defnydd o feddyginiaeth, alcohol a chanabis. Yn ogystal â hyn, roedd llawer o'r troseddu gan Jacques yn gysylltiedig â chamddefnydd o sylweddau. Mae cofnodion achosion prawf yn dangos bod Jacques yn defnyddio canabis yn rheolaidd tra oedd ar drwydded. Roedd wedi cwblhau rhaglenni ymyrraeth camddefnyddio sylweddau yn y ddalfa ac roedd ei drwydded yn cynnwys amod i gymryd rhan mewn ymyriad camddefnyddio cyffuriau ar ôl ei ryddhau o'r carchar. Fodd bynnag, ni chafodd yr ymyriad hwn ei drefnu gan ymarferwyr prawf, ac nid oeddem wedi gallu canfod tystiolaeth iddo gael ei atgyfeirio i asiantaeth cyffuriau. Roedd arolygwyr wedi cael nad oedd ymarferwyr prawf wedi edrych ar y rhesymau isorweddol dros y camddefnydd o sylweddau gan Jacques, a'u bod wedi gwneud yn fach o'i ddefnydd rheolaidd ohonynt tra oedd ar drwydded ac wedi'i oddef. Roedd hyn wedi'i ategu gan fethiant i ddadansoddi'n ddigonol yr effaith o'r camddefnydd o sylweddau ar y risg o niwed difrifol roedd yn ei hachosi.

Mae hyn yn dangos nad oedd yr holl ffactorau risg yn achos Jacques wedi cael eu hasesu neu eu rheoli'n effeithiol, ac nad oedd ymarferwyr wedi arfer chwilfrydedd proffesiynol i edrych ar y rhesymau dros ei gamddefnydd o sylweddau. Mae'r rhain yn themâu cyffredin mewn adolygiadau TPD.

Gwnaed wyth argymhelliad yn ein hadolygiad.[28] Mae HMPPS wedi derbyn saith o'r rhain, ac wedi derbyn yr wythfed yn rhannol, ac wedi datblygu cynllun gweithredu i'w rhoi ar waith. Mae diweddariad ar gynnydd i'w gyflwyno yn Ionawr 2025.

[28] Independent serious further offence review of Joshua Jacques

## Gwaith y dyfodol

Y flwyddyn hon, rydym wedi cynnal digwyddiad i lansio ein paneli dysgu amlasiantaethol. Daeth nifer da i'r digwyddiad hwn ac roedd cyfranogwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i nodau ac amcanion y paneli hyn. Fel rydym wedi pwysleisio o'r blaen, mae'r angen i wella'r gweithio mewn partneriaeth yn y gwasanaeth prawf yn ganfyddiad sy'n cael ei nodi'n aml mewn adolygiadau TPD. Bydd y paneli yn helpu i rannu'r gwersi a ddysgwyd ac yn hyrwyddo gwelliannau. Rydym ni yn Arolygiaeth Prawf EF wedi ymrwymo i ddatblygu ymarfer. Rhan hanfodol o'r ymrwymiad hwn yw cryfhau'r gweithio mewn partneriaeth gan y Gwasanaeth Prawf ar lefel leol a rhanbarthol.

Bydd cyfle yn y paneli dysgu amlasiantaethol am ddysgu ar y cyd gan yr holl asiantaethau perthnasol sydd â rhan mewn achos TPD. Lle bo angen, byddant yn helpu i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer pob asiantaeth sy'n cymryd rhan.

Byddwn yn parhau i hapsamplu adolygiadau TPD sydd â sgôr gyfansawdd 'Angen gwella'. Byddwn yn ymestyn y gwaith hwn i gynnwys sampl o'r diweddariadau ar gynlluniau gweithredu a ddarperir gan bob rhanbarth. Bydd yr hapsamplu hwn yn ein helpu eto yn y dyfodol i ddeall a yw'r newidiadau gofynnol wedi'u gwneud at safon foddhaol yn dilyn y broses sicrhau ansawdd, ac a yw'r camau gweithredu a bennwyd wedi cael eu cyflawni fel y bwriadwyd, a pha effaith a gawsant.

Byddwn hefyd yn parhau â'n gweithgarwch ymgysylltu a meincnodi rhanbarthol, gan ddarparu sesiynau datblygu gyda rheolwyr adolygu ac arweinwyr ar TPD, i gyflawni ein hymrwymiad i wella ymarfer.

# Casgliad

Mae’r adroddiad hwn wedi dangos bod safon gyffredinol adolygiadau TPD wedi parhau i ddirywio. Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol ar TPD ac rydym wedi pwysleisio ym mhob un fod angen cymryd camau i wella ansawdd adolygiadau TPD.

Mae’n siomedig ein bod yn dal i weld nad yw adolygiadau TPD yn cyrraedd y safon ofynnol a, lle’r oedd angen gwneud newidiadau yn dilyn adborth sicrhau ansawdd, nad yw’r rhain yn cael eu cyflawni’n effeithiol bob amser.

Agwedd bwysig o’r adroddiad blynyddol hwn yw ei fod yn cynnwys llais staff y gwasanaeth prawf sydd wedi cael profiad o TPD. Mae’n werth nodi bod 245 o unigolion wedi ymateb i’r arolwg hwn gan ddarparu profiadau a myfyrdodau personol. Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o ymarfer y gallem eu codi o’r ymatebion hyn ac, er ei bod yn bwysig tynnu sylw at y rhain, roedd nifer o ymatebion hefyd a oedd yn dangos bod angen i HMPPS adolygu’r fframwaith ar gyfer prosesau adolygu TPD a’u gweithrediad.

Y flwyddyn hon, rydym wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol o’r dull o reoli achos Joshua Jacques gan y Gwasanaeth Prawf. Fel rydym wedi gweld drwy ein gwaith ar sicrhau ansawdd adolygiadau TPD, a thrwy ein gwaith arolygu craidd, mae diffygion mewn ymarfer yn cael eu canfod yn gyson. Mae hyn yn amlygu eto fod angen sicrhau bod adolygiadau TPD yn cynnal diwylliant sy’n rhoi lle canolog i ddysgu a datblygu ymarfer, fel y bydd newidiadau’n cael eu sefydlu mewn ymarfer.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom saith argymhelliad i HMPPS mewn perthynas ag adolygiadau TPD. Ni chafwyd cynnydd digonol ar gyflawni’r argymhellion hyn; felly mae’r argymhellion hyn yn aros, ac rydym wedi gosod pedwar argymhelliad ychwanegol:

1. cymryd camau buan i adolygu fformat y ddogfen adolygu TPD er mwyn cael y cyfle gorau i lunio adolygiadau TPD llawn gwybodaeth o ansawdd da sy’n cwrdd ag anghenion dioddefwyr a’u teuluoedd
2. sicrhau bod y gwersi i’w dysgu a nodwyd yn cael eu troi’n gamau gweithredu ystyrlon ac effeithiol
3. sicrhau, lle bo’n gymwys, fod yr holl wersi i’w dysgu mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth gan y gwasanaeth prawf yn cael eu dynodi a’u rhannu â’r asiantaethau perthnasol
4. datblygu proses i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau TPD yn cael eu hadborthi i’r sefydliad er mwyn cyfrannu i ddatblygiadau mewn rhanbarthau prawf ac yn fwy eang ar draws HMPPS
5. sicrhau bod proses drwyadl ac effeithiol ar gyfer cydlofnodi’r holl adolygiadau TPD cyn eu cyflwyno i sicrhau ansawdd
6. rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau, ar ôl cael adborth sicrhau ansawdd, fod yr holl newidiadau gofynnol yn nogfen yr adolygiad TPD yn cael eu gwneud yn amserol ac at safon ddigonol.
7. os yw’n bosibl, dylai adolygiadau TPD, yn enwedig y rheini ar y troseddau mwyaf difrifol, gael eu cynnal gan ranbarth prawf gwahanol i hwnnw a oedd yn gyfrifol am oruchwylio’r achos ar adeg y drosedd bellach ddifrifol. A dylid ystyried codi gradd adolygwyr TPD, yn enwedig ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu gymhleth
8. cyflwyno darpariaeth hyfforddi a datblygu ar gyfer y rheini sy’n gweithio mewn timau TPD mewn ffordd sy’n galluogi rheolwyr adolygu i gyflawni’r rôl mewn ffordd ystyrlon ac yn hybu diwylliant dysgu a rennir ymysg timau adolygu TPD ac ar draws rhanbarthau prawf

9. mewn cysylltiad â’r gweithdrefnau TPD sy’n cael eu hadolygu, canolbwyntio’n neilltuol ar dryloywder y broses a sut mae’r canfyddiadau o adolygiadau’n cael eu rhannu â’r aelodau staff a oedd yn gysylltiedig â rheoli’r achos
10. cymryd camau i sicrhau bod yr adnoddau ar gyfer timau adolygu TPD yn gallu cwrdd â’r gofynion a nodwyd yn y fframwaith polisi TPD, a chanolbwyntio’n neilltuol ar ddelio â’r ôl-groniad o adolygiadau TPD ac ar eu cwblhau’n amserol o hyn ymlaen
11. adolygu effeithiolrwydd ac effaith y fframwaith polisi TPD a’r dull o ddadansoddi ymarfer pan fydd troseddau pellach difrifol yn digwydd er mwyn sicrhau bod gwersi ystyrlon i’w dysgu yn cael eu nodi ar y lefel gywir.

# Atodiad A

Safonau sicrhau ansawdd diwygiedig ar gyfer adolygiadau Troseddau Pellach Difrifol. Mae'r newidiadau a wnaed wedi'u dangos mewn **teip gwyrddlas trwm.**

## Dadansoddi ymarfer

**Mae'r adolygiad TPD yn darparu dadansoddiad trwyadl a thryloyw o'r ymarfer asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu ar bob lefel.**

a) A yw'r adolygiad TPD yn ystyried yn ddigonol a oedd yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd?

b) A yw'r adolygiad TPD yn dadansoddi penderfyniadau hanfodol mewn ffordd ddigonol?

c) A yw'r adolygiad TPD yn dadansoddi cyfleoedd a gollwyd mewn ffordd ddigonol?

d) A yw'r adolygiad TPD yn edrych yn ddigonol ar y rhesymau sylfaenol dros unrhyw ddiffygion mewn ymarfer lle'r oeddent yn bodoli?

e) **A yw'r adolygiad TPD yn cynnwys dadansoddiad digonol o ffactorau systemig neu weithdrefnol mewn perthynas ag ymarfer a phenderfynu mewn gwaith prawf?**

f) A yw'r adolygiad TPD yn edrych yn ddigonol ar y gwaith mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill?

g) **A yw'r adolygiad TPD yn tynnu sylw'n ddigonol at feysydd lle mae ymarfer rhagorol, lle'r oeddent yn bodoli?**

h) **A yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol yr ymarfer y mae angen rhoi sylw iddo drwy weithdrefnau perfformiad a disgyblaeth staff lle bo angen?**

## Dyfarniadau digonol

**Mae'r adolygiad TPD yn darparu dyfarniadau clir a chytbwys ar ddigonolrwydd yr ymarfer.**

a) A yw'r adolygiad TPD yn cynnwys barn yr holl staff perthnasol am yr achos a'r disgwyliadau o ran ymarfer **er mwyn cyfrannu at ddyfarniadau?**

b) A yw'r adolygiad TPD yn gwneud **dyfarniadau digonol** ar ymarfer staff ar bob lefel?

c) A yw'r adolygiad TPD yn cynnwys **dyfarniadau digonol** ar ffactorau systemig neu weithdrefnol mewn perthynas ag ymarfer a phenderfynu mewn gwaith prawf?

d) A yw'r adolygiad TPD yn cynnwys dyfarniad digonol ar bolisi prawf?

e) **A yw'r adolygiad TPD yn rhoi eglurhad digonol o arwyddocâd ac effaith diffygion a chyfleoedd a gollwyd**?

f) A yw'r adolygiad TPD yn dod i gasgliadau i raddau digonol ar waith mewn partneriaeth?

g) **A yw'r adolygiad TPD yn cynnwys dyfarniadau digonol drwyddo draw i gyfrannu i'r cynllun gweithredu?**

## Gwersi i'w dysgu

**Mae'r adolygiad TPD yn rhoi'r gallu i ddysgu gwersi priodol er mwyn sbarduno gwelliant**

*A yw'r adolygiad TPD yn nodi meysydd ar gyfer dysgu a gwella ymarfer?*

a) A yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol feysydd i'w gwella ar gyfer staff ar bob lefel?

b) A yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol feysydd i'w gwella ar lefel leol?
c) A yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol feysydd i'w gwella ar lefel ranbarthol?
d) Lle bo'n berthnasol, a yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol feysydd i'w gwella ar lefel genedlaethol?
e) Lle bo'n berthnasol, a yw'r adolygiad TPD yn nodi'n ddigonol feysydd i'w gwella mewn perthynas â gweithio amlasiantaethol?
f) **A yw'r broses cydlofnodi yn sicrhau bod yr adolygiad o ansawdd digonol a'i fod yn nodi gwersi perthnasol i'w dysgu?**

*A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn cwmpasu'n ddigonol y gwersi i'w dysgu a'r ymarfer sydd i'w wella?*

a) **A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn ymdrin yn ddigonol â diffygion ar gyfer staff ar bob lefel yn yr adolygiad TPD?**
b) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn ymdrin yn ddigonol â diffygion a nodwyd ar lefel leol yn yr adolygiad TPD?
c) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn ymdrin yn ddigonol â diffygion a nodwyd ar lefel ranbarthol yn yr adolygiad TPD?
d) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn ymdrin yn ddigonol â diffygion a nodwyd ar lefel genedlaethol yn yr adolygiad TPD lle'r oeddent yn bodoli?
e) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn cynnwys digon o weithgarwch datblygu i beri newid?
f) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn nodi ffyrdd effeithiol i fesur cynnydd/canlyniadau?
g) A yw'r camau gweithredu bwriadedig yn cynnwys sicrwydd digonol ynghylch sut bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ag asiantaethau partneriaid?

## Dioddefwyr a'u teuluoedd

**Mae'r adolygiad TPD yn addas i'w rannu â dioddefwyr a'u teuluoedd ac mae'n cwrdd â'u hanghenion.**

a) A yw'r iaith a ddefnyddir yn yr adolygiad TPD yn ddigon hawdd ei deall?
b) A yw'r adolygiad TPD wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sensitif er mwyn bod yn ystyriol o'r effaith ar ddioddefwyr a'u teuluoedd?
c) A yw'r adolygiad TPD yn ymdrin mewn ffordd ddigonol a thryloyw ag ymarfer sy'n berthnasol i amgylchiadau'r drosedd bellach ddifrifol?
d) A yw'r adolygiad TPD yn cyflwyno dyfarniadau digonol, gan ddefnyddio enghreifftiau fel tystiolaeth i ategu'r rhain?
e) **A yw'r adolygiad yn cynnwys gwybodaeth y gellir ei rhannu yn unig?**
f) **A yw'r adolygiad yn gryno, yn gywir ac yn eglurhaol?**